------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2023

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lara Date**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.45-09.55)

**Yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 1 o'r cyfarfod heddiw**

### 1 Cwmpasu: Cyswllt Ffermio

(09.55-10.00) (Tudalennau 1 - 3)

**Dogfennau atodol:**

Papur cwmpasu [Saesneg yn unig]

## Cyhoeddus (10.00-12.30)

### 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.00)

### 3 Papurau i'w nodi

(10.00)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 Cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach**

(Tudalen 4)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog yr Economi - 24 Tachwedd 2023

**3.2 Cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - 30 Tachwedd 2023: Sesiwn ar Ddyfodol Dur Cymru**

(Tudalen 5)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd Tata Steel UK - 27 Tachwedd 2023 [Saesneg yn unig]

**3.3 Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE**

(Tudalen 6)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 28 Tachwedd 2023

**3.4 Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 ("Rheoliadau Cymru")**

(Tudalennau 7 - 15)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg - 30 Tachwedd 2023

**3.5 Cynllun Cynefin Cymru**

(Tudalennau 16 - 17)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd - 7 Rhagfyr 2023

**3.6 Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 18 - 21)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd - 7 Rhagfyr 2023

Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 23 Hydref 2023

## 4 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(10.00-11.10) (Tudalennau 22 - 68)

- Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Llywodraeth Cymru
- Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr - Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
- Richard Irvine, Prif Filfeddyg, Llywodraeth Cymru
- Dean Medcraft, Cyfarwyddwr - Cyllid a Gweithrediadau, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur tystiolaeth - Llywodraeth Cymru

Briff Ymchwil

## Egwyl (11.10-11.20)

## 5 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog: Gweinidog yr Economi

(11.20–12.30) (Tudalennau 69 - 89)

- Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, Llywodraeth Cymru
- Duncan Hamer, Cyfarwyddwr Gweithrediadau - Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru
- Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr - Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach, Llywodraeth Cymru
- Jo Salway, Cyfarwyddwr - Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur tystiolaeth - Llywodraeth Cymru

Briff Ymchwil

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.30)

## Preifat (12.30–12.40)

## 7 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

(12.30–12.40)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.wales

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@assembly.wales

24 Tachwedd 2023

Annwyl Paul a Huw

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 17 Tachwedd rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu, bod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach wedi'i aildrefnu a'r dyddiad newydd fydd Dydd Mercher 29 Tachwedd 2023.

Bydd yr agenda yn cynnwys y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt gydag India, y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar lefel taleithiau'r UDA, 13eg Gynhadledd Gweinidogion y WTO (MC-13) a'r trafod rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU am negodiadau.

Anfonaf ragor o wybodaeth atoch ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

TATA STEEL

TATA

Paul Davies MS
Chair of the Senedd Economy Committee
Welsh Parliament,
Cardiff Bay,
Cardiff CF99 1SN

27 November

Dear Paul Davies MS,

I hope you are well.

I am writing to provide my apologies for the Senedd Economy Committee Session, scheduled to take place on 30 November. We continue to be very keen to engage openly with the Economy Committee, and the Senedd more widely.

Tata Steel remains in informal consultation with our Trades Union partners on potential proposals to decarbonise our Port Talbot operations. I am afraid that until we have moved into the formal process of consultation, we are unable to publicly discuss any and all potential proposals and would not wish to pre-empt or undermine the legal processes of that consultation.

We are eager to engage closely with the Committee on this topic, but we also want any evidence session to be fruitful and allow for open discussion.

Would you please consider a future date for the company to give evidence on this basis?

Again, please accept my apologies for this session, but be assured we remain committed to future engagement with the Committee.

Kind regards,



Dr Henrik Adam.

Chair, Tata Steel UK.

**Dr Henrik Adam**
Chair of the Tata Steel UK Limited Board
Tata Steel UK Limited – registered office: 18 Grosvenor Place, London SW1X 7HS – company number: 02280000

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich Cyf/Your Ref: 18/10/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@Senedd.Cymru

Luke Fletcher AS
Aelod:
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

28 Tachwedd 2023

Annwyl Huw a Luke,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Hydref 2023, yn adrodd ar drydydd cyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE ac am ddarparu crynodeb o gyfraniad y Senedd i'r cyfarfod hwnnw.

Mae'n galonogol darllen bod y Senedd a Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE ac yn nhrefniadau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae gwneud hyn yn sicrhau bod y materion hynny sy'n arbennig o bwysig i Gymru yn cael sylw. Rydym wedi dysgu llawer o'r adroddiad ar ganlyniadau'r cyfarfod hwn, yn ogystal â'r argymhellion, ac maent yn ddefnyddiol iawn. Mae'n arbennig o foddhaol bod y DU bellach yn cymryd rhan yn Horizon Ewrop unwaith eto.

Rwy'n awyddus i'ch Pwyllgorau a Llywodraeth Cymru barhau i gydweithio i sicrhau'r mewnbwn mwyaf effeithiol i brosesau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar gyfer sicrhau bod Cymru yn cael y budd gorau posibl o'r berthynas rhwng y DU a'r UE. Mae hyn yn arbennig o wir wrth inni ddechrau cyfnod o bontio sefydliadol ac wrth i'r amser ar gyfer adolygu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu agosáu.

Edrychaf ymlaen at gael diweddariad pellach gennych yn dilyn y cyfarfod nesaf.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

30 Tachwedd 2023

Annwyl Huw

Ysgrifennaf i dynnu sylw'r Pwyllgor at Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 ("Rheoliadau Cymru") a osodwyd gerbron y Senedd ar 30 Tachwedd.

Gosodir y Rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi fy ngwrthwynebiad i'r pwerau cydredol yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 a byddwch yn cofio i'r Senedd bleidleisio yn erbyn cydsynio i'r Bil Cymwysterau Proffesiynol ar y pryd. Byddwch yr un mor siomedig â mi bod Llywodraeth y DU, er iddi ein sicrhau sawl gwaith na fyddai'r pwerau'n cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n tanseilio'r setliad datganoli, wedi gwneud yn union hynny.

Mae Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau cydredol yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 i wneud Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau'r DU"). Mae Rheoliadau'r DU yn gweithredu ledled y DU ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yn y cytundeb masnach rydd rhwng Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy a'r Deyrnas Unedig, ac yn gwneud darpariaeth mewn meysydd pwnc sydd wedi eu datganoli i Gymru.

Fe wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyn gosod Rheoliadau'r DU, ac wrth ymateb gwnes yn glir nad oeddem yn cytuno â'i bwriad i arfer y pwerau hyn yng Nghymru.

Rwyf felly yn gosod Rheoliadau Cymru sy'n diwygio Rheoliadau'r DU i ddarparu nad ydynt yn gymwys i reoleiddwyr Cymreig ar broffesiynau rheoleiddiedig penodedig y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â hwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheoliadau Cymru hefyd yn gosod y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan y cytundeb masnach rydd ar reoleiddwyr Cymreig ac yn diwygio deddfwriaeth sectorol yng Nghymru i adlewyrchu gweithredu’r cytundeb masnach rydd a dirymu Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.

Atodaf gopi o'r Memorandwm Esboniadol sy'n rhoi rhagor o fanylion ynghylch y Rheoliadau.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan swyddogion Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

**30 Tachwedd 2023**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 ("Rheoliadau Cymru") yn gweithredu darpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yn y cytundeb masnach rydd rhwng Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy a'r Deyrnas Unedig ("y cytundeb masnach rydd") mewn perthynas â materion sydd wedi eu datganoli i Gymru.

Mae Rheoliadau Cymru yn diwygio Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023 Llywodraeth y DU ("Rheoliadau 2023 y DU") i ddarparu nad ydynt yn gymwys i reoleiddwyr Cymreig (fel y'u diffinnir yn rheoliad 2) ar broffesiynau rheoleiddiedig penodedig y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â hwy.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio deddfwriaeth sectorol yng Nghymru sy'n ganlyniadol ar weithredu'r cytundeb masnach rydd ac ar ddirymu Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 ("Rheoliadau'r UE 2015").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y daw Rheoliadau Cymru i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod.

Mae Rheoliadau Cymru yn diwygio Rheoliadau 2023 y DU ac felly ni ellir eu gosod nes y gwneir Rheoliadau 2023 y DU. O dan delerau'r cytundeb masnach rydd, mae angen i bob parti gael mesurau ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'i delerau erbyn 1 Rhagfyr 2023. Felly, rhaid i Reoliadau Cymru ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2023 i sicrhau bod y rheoleiddwyr Cymreig yn gallu cydymffurfio â gofynion y cytundeb masnach rydd o'r dyddiad hwnnw. Ni wnaed Rheoliadau 2023 y DU hyd 29 Tachwedd 2023, ac o ganlyniad nid oedd yn bosibl gwneud Rheoliadau Cymru hyd 30 Tachwedd 2023.

Mae Rheoliadau Cymru hefyd yn rhoi eglurder cyfreithiol i reoleiddwyr Cymreig a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig drwy sicrhau bod deddfwriaeth sectorol

Cymru yn adlewyrchu'r trefniadau newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau yn brydlon.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae paragraff 10 (materion tramor etc.) o Atodlen 7A (materion a gedwir yn ôl) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu, er bod cysylltiadau rhyngwladol a rheoleiddio masnach ryngwladol yn faterion a gedwir yn ôl, nad yw cadw at rwymedigaethau rhyngwladol a'u gweithredu yn fater a gedwir yn ôl. Felly, mae gan Weinidogion Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn materion sydd wedi eu datganoli.

Daeth Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 â'r system dros dro i ben ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a ddeilliodd o aelodaeth y DU o'r UE a chreodd fframwaith newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau a phrofiad proffesiynol tramor yn y DU, neu ran o'r DU.

Mae adran 3(1) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 yn darparu y caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth y mae’r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol at ddiben gweithredu unrhyw gytundeb cydnabod rhyngwladol y mae’r Deyrnas Unedig yn barti iddo, neu mewn cysylltiad â gweithredu unrhyw gytundeb o’r fath. Diffinnir "awdurdod cenedlaethol priodol" naill ai fel yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor, neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â rheoliadau o dan y Ddeddf sy'n cynnwys dim ond darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Senedd.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi defnyddio'r pwerau cydredol yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 i wneud Rheoliadau 2023 y DU i weithredu’r cytundeb masnach rydd ledled y DU. Mae Rheoliadau 2023 y DU yn cynnwys darpariaeth i weithredu'r cytundeb masnach rydd mewn perthynas â meysydd pwnc sydd wedi eu datganoli i Gymru ac maent yn gosod dyletswyddau statudol ar reoleiddwyr Cymreig.

Gwrthododd Gweinidogion Cymru a'r Senedd gynnwys pwerau cydredol yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 yn ystod hynt y Bil ar y pryd.

Mae Rheoliadau Cymru yn datgymhwyso Rheoliadau 2023 y DU mewn perthynas â rheoleiddwyr Cymreig ac yn gwneud darpariaeth briodol mewn perthynas â Chymru.

Gwneir Rheoliadau Cymru o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol fel y darperir ar ei chyfer gan adran 18 o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Ym mis Gorffennaf 2021, llofnododd Llywodraeth y DU y cytundeb masnach rydd gyda Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein.

Mae Pennod 12 o'r cytundeb masnach rydd yn sefydlu system fandadol ar gyfer cyd-gydnabod cymwysterau proffesiynol rhwng y DU, Norwy, Gwlad yr Iâ, a Liechtenstein (y gwladwriaethau sy'n bartïon). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr ledled y DU gydnabod cymwysterau proffesiynol ymgeiswyr o'r gwladwriaethau sy'n bartïon i'r cytundeb, pan fo'r cymwysterau hynny yn gymaradwy â'r cymwysterau sy'n ofynnol i gael mynediad i'r un proffesiwn, ac i'w ddilyn, yn y DU. Mae'r cytundeb masnach rydd hefyd yn nodi'r ffordd y mae rhaid ymdrin â cheisiadau am gydnabod cymwysterau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr gynnig cyfnodau ymaddasu a phrofion gallu pan fo angen.

Mae Rheoliadau Cymru yn gweithredu'r cytundeb masnach rydd yng Nghymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr Cymreig gydymffurfio â'r darpariaethau ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn y cytundeb masnach rydd.

Mae Rheoliadau Cymru hefyd yn diwygio deddfwriaeth sectorol Cymru yn ôl yr angen i ystyried gweithredu telerau'r cytundeb masnach rydd a diddymu Rheoliadau'r UE 2015.

Mae telerau'r cytundeb masnach rydd yn fanwl iawn ac nid oes fawr o hyblygrwydd mewn perthynas ag unrhyw wahaniaethau o ran polisi. Felly, mae'r dyletswyddau sydd i'w gosod ar reoleiddwyr Cymreig yn Rheoliadau Cymru o reidrwydd yn debyg iawn i'r rhai a nodir yn Rheoliadau 2023 y DU.

Daw Rheoliadau Cymru i rym ar 1 Rhagfyr 2023, sef y dyddiad a bennir yn y cytundeb masnach rydd, ac erbyn hynny rhaid i'r gwladwriaethau sy'n bartïon i'r cytundeb gael mesurau ar waith i gydymffurfio â'i delerau.

Mae Rheoliadau Cymru ond yn berthnasol i reoleiddwyr Cymreig sy'n gyfrifol am reoleiddio yng Nghymru y proffesiynau a restrir yn Atodlen 1. Y rheoleiddwyr yw Gweinidogion Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, Gofal Cymdeithasol Cymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

## 5. Ymgynghori

Mae adran 15 o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cenedlaethol priodol, wrth wneud rheoliadau o dan adran 3 o'r Ddeddf, ymgynghori â rheoleiddwyr y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt neu ei bod fel arall yn briodol ymgynghori â hwy. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad wedi ei dargedu ar y Rheoliadau Cymru drafft gyda'r rheoleiddwyr Cymreig y mae Rheoliadau Cymru yn debygol o effeithio arnynt ym mis Hydref 2023.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ni ystyriwyd bod angen unrhyw welliannau i'r Rheoliadau Cymru drafft.

Mae copi o'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion ar gael ar gais, drwy anfon e-bost i PolisiCyflogadwyeddASgiliau@llyw.cymru

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd dau opsiwn yn yr asesiad hwn:

Opsiwn 1. Gwneud dim

O dan yr opsiwn hwn, bydd Rheoliadau 2023 y DU yn gymwys mewn perthynas â rheoleiddwyr Cymreig.

Opsiwn 2. Gosod deddfwriaeth Gymreig i sicrhau cydymffurfedd â thelerau'r cytundeb masnach rydd mewn meysydd datganoledig

Bydd Rheoliadau Cymru yn gweithredu'r cytundeb masnach rydd yng Nghymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr Cymreig gydymffurfio â'r darpariaethau ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn y cytundeb masnach rydd. Dyma'r opsiwn a ffefrir gan yr ystyrir ei fod yn adlewyrchu'r setliad datganoli yn iawn.

Costau a manteision

Opsiwn 1. Gwneud dim

Dyma'r opsiwn sylfaenol felly nid oes unrhyw fanteision na chostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2. Gosod deddfwriaeth Gymreig i sicrhau cydymffurfedd â thelerau'r cytundeb masnach rydd mewn meysydd datganoledig

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi unrhyw gostau nac effeithiau ychwanegol sylweddol o ganlyniad i weithredu Rheoliadau Cymru. Bydd effaith Rheoliadau Cymru yn ei hanfod yr un fath ag effaith Rheoliadau 2023 y DU.

Cafodd y rheoleiddwyr Cymreig eu hannog i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl yn ystod yr ymgynghoriad. Mae o bosibl gost weinyddol gyfyngedig i reoleiddwyr Cymreig mewn cysylltiad â chydymffurfio â'r gofynion yn y cytundeb masnach rydd i gynnig mesurau cydadferol i ymgeisydd â chymwysterau proffesiynol a enillwyd yn Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein. Yr amcangyfrif gorau o'r gost hon yw £1,000 yr ymgeisydd. Fodd bynnag, rhwng 2015 a 2023 ni chafodd y rheoleiddwyr Cymreig unrhyw geisiadau am gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd yn Norwy, Gwlad yr Iâ a/neu Liechtenstein ac nid oeddent yn disgwyl y byddai cynnydd yn nifer yr

ymgeiswyr sy’n ceisio ymuno â’r proffesiynau y maent yn gyfrifol am eu rheoleiddio o ganlyniad i Reoliadau Cymru. Felly, mae’n bosibl na fydd y rheoleiddwyr Cymreig yn y pen draw yn mynd i’r costau gweinyddol sy’n gysylltiedig â’r gofyniad i gynnig mesurau cydadferol.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

7 Rhagfyr 2023

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Tachwedd 2023 ynglŷn â Chynllun Cynefin Cymru.

Rydych yn cydnabod y pwysau eithriadol ar gyllidebau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Fel yr adroddodd y Gweinidog Cyllid ar 17 Hydref, mae hyn yn cael ei achosi gan effaith driphlyg chwyddiant, mwy na degawd o gyni ar wasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau gadael y UE, sydd wedi arwain at leihad yn y cyllid yn gyffredinol.

Cyflwynwyd Cynllun Cynefin Cymru i sicrhau nad oes bwlch mewn cymorth amgylcheddol yn 2024 yn y cyfnod cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn 2025. Roedd cynnal y gefnogaeth amgylcheddol yn ystod y cyfnod hwn yn rhywbeth y gofynnodd amrywiol randdeiliaid amdano gan gynnwys yr Undebau Amaethyddol, a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd annibynnol.

Nid oedd Llywodraeth Cymru yn medru parhau i gynnig cymorth i gyfranogwyr presennol Glastir yn unig wrth i Raglen Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2023. Yn ogystal â pharhau â'r gwaith a wnaed o dan y Cynllun Glastir i ddiogelu cynefinoedd, mae Cynllun Cynefin Cymru hefyd yn rhoi cyfle i'r miloedd o ffermwyr eraill nad ydynt wedi gallu gwneud cais i gynllun amaeth-amgylcheddol ers 2017.

Mae'r cyfraddau talu a osodwyd ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru yn adlewyrchu'r costau a ysgwyddir gan ffermwyr wrth iddynt reoli tir cynefin yn unol â gofynion cytundeb y Cynllun. Wrth sefydlu'r cyfraddau talu, gwnaethom ddiwygio'r rhagdybiaethau ar effaith gofynion rheoli ar dir cynefin yn ein cyfrifiadau. Rydym hefyd wedi lleihau nifer yr opsiynau rheoli i symleiddio'r broses ymgeisio a'r gofynion rheoli. Er nad oedd modd imi gadarnhau'r gyllideb oedd ar gael ar yr adeg yr agorwyd y ffenestr, ni chafodd hyn effaith ar y gyfradd dalu fesul hectar a gynigiwyd, na sut y cyfrifwyd y gyfradd dalu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caewyd y ffenestr ymgeisio ar gyfer y cynllun ar 10 Tachwedd, a daeth 3,254 o Ddatganiadau o Ddiddordeb i law. Mae’r rhif hwn wedi’i rannu fel a ganlyn:

- **166** gan Gymdeithasau Pori presennol am gymorth ar dir comin. (Cyflwynodd 92.79% o ddeiliaid contract presennol Glastir – Tir Comin Ddatganiad o Ddiddordeb.)
- **1,572** gan ffermwyr unigol sydd â chontract Glastir Uwch presennol. (Cyflwynodd 76.8% o ffermwyr â chontract Glastir Uwch Ddatganiad o Ddiddordeb.)
- **1,516** gan ffermwyr unigol heb gytundeb Glastir Uwch presennol. (Cyflwynwyd 49% o Ddatganiadau o Ddiddordeb gan ffermwyr unigol.)

Mae'r ceisiadau'n destun gwiriadau rheoli ar hyn o bryd. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau ac y bydd y contractau wedi'u cyhoeddi, byddaf yn gallu cadarnhau nifer y cyfranogwyr a chyfanswm y tir a gefnogir gan y Cynllun.

Mae Cynllun Cynefin Cymru yn cynnig contract 12 mis ac nid yw'r gyfradd dalu a'r fethodoleg sefydledig ar gyfer gosod y cyfraddau yn gosod cynsail ar gyfer yr SFS. Rwyf wedi rhannu manylion am sut y cyfrifwyd y cyfraddau talu gyda'r rheini sydd wedi gofyn am yr wybodaeth. Nid oedd y cyfraddau talu yn destun ymgynghoriad, fodd bynnag, cafodd y fethodoleg ar gyfer sefydlu'r cyfraddau eu gwirio'n annibynnol, fel sy'n arferol, pan fyddwn yn gosod cyfraddau talu ar gyfer cynlluniau cymorth amaethyddol.

Wrth i ffenestr ymgeisio'r cynllun agor, roedd problemau gyda'r mapiau cynefinoedd a'r dosbarthiadau cynefin a oedd wedi'u llenwi ymlaen llaw a gafodd eu cyflwyno i ymgeiswyr. Cafodd gwybodaeth am gynefinoedd ei llenwi ymlaen llaw ar ffurflenni cais a'i chyflwyno i bob ffermwr yng Nghymru fesul cae. Fel y nodwyd yn eich llythyr, problemau cychwynnol oedd y rhain, a gafodd eu datrys, a chyflëwyd y datrysiadau i'r darpar ymgeiswyr.

Bydd Glastir Organig yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2023, wrth i'r contract presennol ddod i ben. Er hynny, mae gan ffermwyr yng Nghymru, gan gynnwys ffermwyr organig, fynediad at amrywiaeth o gynlluniau cymorth, ac roeddent hefyd mewn sefyllfa dda i wneud cais i Gynllun Cynefin Cymru. Yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Tachwedd, cadarnheais fy mwriad i gynnig cefnogaeth i'r sector organig yn 2024, yn amodol ar argaeledd y gyllideb, a byddaf yn cadarnhau'r manylion cyn gynted â phosibl.

Rwy'n falch o nifer y ceisiadau a ddaeth i law ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru, yn enwedig gan y ffermwyr hynny nad ydynt yn rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd. Ynghyd â'n cynlluniau gwledig domestig, bydd hyn yn eu galluogi i gyfrannu tuag at ein hymrwymiadau newid hinsawdd a natur a pharatoi ar gyfer mynediad i'r SFS. Rydym wedi dysgu gwersi gwerthfawr wrth ddatblygu a chyflwyno'r cynllun a byddwn yn defnyddio'r gwersi hyn wrth i ni gwblhau'r SFS.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-LG-2960-23

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Copi i: Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

7 Rhagfyr 2023

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) 2024**

Rwyf wedi cael cais gan yr Arglwydd Benyon, y Gweinidog Bioddiogelwch, a Materion Morol a Gwledig, yn gofyn am gydsyniad ffurfiol ar gyfer Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig, ac a fydd yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliadau 2024 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd ("y Confensiwn"), y mae'r Deyrnas Unedig yn barti contractio iddo.

Mae gan y DU rwymedigaeth o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr i gydweithredu ar reoli stociau pysgod a rennir drwy sefydliadau rhanbarthol neu is-ranbarthol priodol. Caiff pysgod tiwna a rhywogaethau tebyg i diwna eu rheoli'n fyd-eang drwy Sefydliadau Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol; mae'r Confensiwn yn un enghraifft o'r fath.

Roedd y Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig yn flaenorol i ofynion y Confensiwn fel Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Ar ôl gadael yr UE, mae'r DU wedi dod yn barti contractio i'r Confensiwn fel gwladwriaeth arfordirol annibynnol. Mae'r offeryn hwn yn diweddaru ac yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir i gyfrif am ofynion pellach o dan y Confensiwn ac i ddileu amwysedd a darpariaethau diangen.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel parti contractio, mae gan y DU rwymedigaeth i weithredu mesurau (a elwir yn 'argymhellion') a fabwysiadwyd o dan y Confensiwn. Er bod cynnal cytundebau pysgodfeydd rhyngwladol yn swyddogaeth a gedwir yn ôl, mae'r rhwymedigaethau a'u gweithrediad yn ymestyn i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru a Pharth Cymru.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu argymhellion a fabwysiadwyd o dan y Confensiwn nad ydynt eto wedi'u hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth berthnasol i sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol. Yn ogystal, mae'r offeryn hefyd yn gwneud diwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir i gael gwared ar ddarpariaethau sy'n ddiangen neu i ddileu amwysedd mewn deddfwriaeth na chafodd ei diweddaru'n gynhwysfawr ar adeg gadael yr UE.

At hynny, diwygiwyd hefyd gyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir i sicrhau eglurder a gorfodadwyedd y darpariaethau perthnasol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â darpariaethau sy'n rheoleiddio pysgota tiwna asgell las. Ar adeg gadael yr UE, nid oedd gan y DU ddyraniad cwota ar gyfer tiwna asgell las ond ers ymuno â'r Confensiwn fel parti contractio annibynnol mae'r DU wedi sefydlu dyraniad cwota ar gyfer y stoc hon yn unol â Chytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE. O'r herwydd, cymerwyd y cyfle i ailddrafftio rhai darpariaethau i gael gwared ar amwysedd posibl ac egluro sut y bydd y gofynion yn berthnasol i longau pysgota'r DU sy'n pysgota am diwna asgell las, neu sy'n eu dal drwy ddamwain, yn ardal y Confensiwn. I fod yn gyflawn, mae darpariaethau o ran trosedd, cosb, a gorfodi wedi cael eu hychwanegu'n uniongyrchol at gyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir er mwyn osgoi unrhyw amwysedd posibl ynghylch a fyddai'r darpariaethau gorfodi presennol yn berthnasol i'r darpariaethau sydd newydd eu diwygio.

Gan fod y Rheoliadau hyn yn gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol ledled y DU mewn perthynas â'r Confensiwn, mae'n briodol eu bod yn cael eu gwneud ar sail y DU. Felly, rwy'n bwriadu rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Rheoliadau 2024, felly mae'r darpariaethau hynny yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Y dyddiad gosod disgwyliedig yw 12 Rhagfyr ac mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol sy'n golygu y gellir ei wneud yn dilyn penderfyniad.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a byddaf yn ysgrifennu mewn termau tebyg i Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Materion Gwledig.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LJCC/HID

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Hydref 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 29 Medi, ynghylch y Protocol sy'n diwygio'r Confensiwn Rhyngwladol ar Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd (ICCAT), a elwir hefyd yn "Brotocol Palma".

Fel y nodwch, mae cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys gwaith yr ICCAT, yn fater a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, rwy'n cytuno bod rheoli rhywogaethau ICCAT, yn enwedig Tiwna Asgell Las, sy'n fwyfwy cyffredin yn nyfroedd Cymru, yn fater i'm Llywodraeth. Yn y cyd-destun hwn, gwnaethom gytuno â DEFRA y dylid mabwysiadu'r Protocol gan fod y diwygiadau a ddisgrifiwch yn welliannau i weithrediad y Confensiwn.

Fe wnaethoch chi ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y canlynol:

- *yr ymgysylltiad rhynglywodraethol a ddisgrifir yn y Memorandwm Esboniadol*

Roedd Protocol Palma yn destun trafodaeth ar lefel swyddogion ac yn dilyn cyngor cyfreithiol, daethpwyd i'r casgliad bod y diwygiadau i'r Protocol yn peri ychydig iawn o bryder i'r DU neu ddim o gwbl, yn enwedig oherwydd iddynt gael eu hadolygu cyn i'r DU arwyddo ar ran yr holl Weinyddiaethau.

- *pa drefniadau mewnol sydd ar waith i fonitro, arsylwi a gweithredu argymhellion Comisiwn y Protocol mewn meysydd datganoledig.*

Fel parti contractio i ICCAT, mae'n ofynnol i'r DU ddeddfu deddfwriaeth i roi effaith i weithrediad domestig y Confensiwn. Cafodd rhai adrannau o ddeddfwriaeth yr UE eu cadw wrth i'r DU ymadael â'r UE yn hyn o beth. Mae swyddogion yn ein His-adran Pysgodfeydd yn gyfrifol am fonitro, arsylwi a gweithredu rheoliadau o'r fath. Yn dilyn Brexit, rhoddwyd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fframwaith y DU ar waith ar gyfer rheoli pysgodfeydd, gan nodi rhyngweithiad cymwyseddau a gedwir yn ôl a chymwyseddau datganoledig. Mae’r fframwaith yn nodi sut y bydd llywodraethau’r DU yn rhyngweithio yn y maes polisi hwn ac yn cael ei gyhoeddi yn:


https://www.gov.uk/government/publications/fisheries-management-and-support-provisional-common-framework

- *eich asesiad ynghylch a oes angen cymryd unrhyw gamau, gan gynnwys gwneud newidiadau, ar hyn o bryd i sicrhau bod Cymru’n cydymffurfio â’r diwygiadau a wnaed gan y Protocol mewn meysydd datganoledig.*

Fel y nodwch, mae’r Protocol yn diwygio cwmpas yr ICCAT, yn ogystal â gwella’r ffordd y mae’r Comisiwn yn gweithredu. Mae hefyd yn mewnosod amcanion newydd ar gyfer partïon contractio, ac mae’r rhain yn cyd-fynd â’r Amcanion Pysgodfeydd a nodir yn Neddf Pysgodfeydd 2020. Ni fyddai unrhyw gamau inni eu cymryd ar unwaith i weithredu’r Protocol.

Dylid nodi, dim ond pan fydd tri chwarter partïon contractio ICCAT yn ei gadarnhau, y mae’r Protocol yn dod i rym. O ystyried bod cadarnhad y DU yn dod â’r cyfanswm i ddim ond 6 o 52 o bartïon contractio, mae unrhyw ddarpariaethau a ddatblygwyd o ganlyniad i’r newidiadau a wneir gan y Protocol gryn dipyn i ffwrdd o’r angen i weithredu arnynt.

Yn gywir,



**MARK DRAKEFORD**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Papur tystiolaeth Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar gyfer Craffu Cyffredinol Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

13/12/2023

Gwybodaeth a ddarparwyd i gynorthwyo'r Pwyllgor cyn presenoldeb y Gweinidog ar gyfer Craffu Cyffredinol ar 13 Rhagfyr 2023.

Cafodd cynnwys y papur hwn ei baratoi cyn y gyllideb arfaethedig, ac mae'n amodol arni.

# Cynnwys


**1. Pysgodfeydd ... 3**

**2. Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol ... 4**

**3. Polisi Bwyd ... 7**

**4. Cynllun Cynefin Cymru a rheoleiddio organig ... 9**

**5. Clefyd anifeiliaid – Clefydau Anifeiliaid Egsotig â Blaenoriaeth (Ffliw Adar, Firws y Tafod Glas a Firws Clefyd Gwaedlifol Episöotig) ... 11**

**6. TB Buchol ... 16**

**7. Lles Anifeiliaid – Deddf Cŵn Peryglus 1991 - newidiadau, effeithiau a chanlyniadau. Perchnogaeth Gyfrifol ar Gŵn a'u Bridio yng Nghymru ... 23**

**8. Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE 2014-2020 ... 24**

**9. Diweddariad ar y cynllun Ffermio Cynaliadwy ... 25**

**10. Atodiad 1 – rhestr o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ... 28**

# 1. Pysgodfeydd

## Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd

1. Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd y llynedd, yn cynnwys rhaglen Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd, sydd i'w chyflwyno yn unol ag amserlenni penodedig dros y pum mlynedd nesaf. Bydd Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn adnoddau allweddol i sicrhau bod pysgodfeydd yn gynaliadwy ac yn cael eu rheoli'n dda, gan helpu i gyflawni ymrwymiadau polisi'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd.
2. Rwyf am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y broses o roi'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ar waith. Bydd rhai Cynlluniau'n cael eu cyflwyno ar y cyd â Gweinyddiaethau eraill er mwyn adlewyrchu ehangder daearyddol y stociau pysgod penodol. Bydd eraill yn gynlluniau Cymru rhanbarthol (Crancod a Chimychiaid, Cregyn Moch a Chocos) a byddant yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r ystyriaethau rwy'n ymgymryd â nhw mewn perthynas â'n hamcanion a'n huchelgeisiau polisi ein hunain.
3. Mae **Atodiad 1** yn amlinellu'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd sy'n berthnasol i Gymru sydd i'w cyflwyno rhwng 2023 a 2028. Mae hon yn rhaglen waith uchelgeisiol a newydd ledled y DU, a byddwn yn dysgu ac yn mireinio ein dull gweithredu, lle bo angen, wrth ddatblygu ein sylfaen wybodaeth a derbyn adborth gan randdeiliaid.
4. Byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd, ac yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arnynt. Yn ogystal, ar ôl cyhoeddi'r Cynlluniau, cyn bod unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r mesurau rheoli presennol yng Nghymru, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar yr holl gynigion ar gyfer mesurau rheoli newydd.
5. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio ar Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ar gyfer stociau â blaenoriaeth i Gymru, ac yn cydweithio â Gweinyddiaethau eraill. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru a DEFRA wedi ymgynghori ar fersiynau drafft o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd draenogod môr a chregyn bylchog ar gyfer dyfroedd Cymru a Lloegr ac maen nhw'n dadansoddi'r ymatebion gyda'r bwriad o gyhoeddi'r fersiynau terfynol ym mis Rhagfyr eleni.
6. Mae Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Crancod a Chimychiaid i fod i gael ei gyhoeddi yn 2026, ac mae swyddogion yn gweithio gyda sefydliadau partner gyda'r nod o gynnal cyfarfodydd cyn yr ymgynghoriad yn gynnar yn 2024.
7. Mae fy swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Bysgodfeydd Cymru am gynnydd cyffredinol, a bydd yn cael cyfleoedd i wneud sylwadau a chyfrannu.

# 2. Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol

## Cyflwyniad

8. Mae llygredd amaethyddol yn parhau i effeithio ar yr amgylchedd ledled Cymru, sy'n niweidiol i iechyd y cyhoedd a bioamrywiaeth. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (Rheoliadau CoAP), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021, yn seiliedig ar argymhellion arfer da hirsefydlog a gynlluniwyd i atal llygredd amaethyddol. Mae'r Rheoliadau CoAP yn cynnwys darpariaethau trosiannol i roi amser i ffermydd fabwysiadu'r gofynion newydd lle bo angen. Bydd y Rheoliadau CoAP yn cael eu gweithredu'n llawn erbyn 1 Ionawr 2025.

## Diben y Rheoliadau

9. Mae'r Rheoliadau CoAP wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag achosion llygredd amaethyddol yng Nghymru, er mwyn cyfrannu at gyflawni ystod eang o'n rhwymedigaethau rhyngwladol a domestig. Maent yn cefnogi ymrwymiad parhaus Cymru i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd , y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Phrotocol Gothenburg. Byddant yn cyfrannu at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac amcanion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

10. Mae'r Rheoliadau CoAP yn cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang drwy hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a diogelu ein hiechyd a'n hamgylchedd naturiol drwy ecosystemau iach a gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd ecolegol. Byddant yn helpu ffermydd i leihau allyriadau niweidiol a gwella'r ffordd y rheolir ein hadnoddau naturiol. Byddant yn cefnogi ffermydd i fynd i'r afael â'r difrod i'n hadnoddau naturiol a nodwyd yn Adroddiad Cyflwr Ein Hadnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru 2020 a'u gwrthdroi a lleihau effeithiau negyddol amaethyddiaeth ar fioamrywiaeth.

## Llygredd Amaethyddol yng Nghymru

11. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cofnodi nifer y digwyddiadau llygredd amaethyddol wedi'u profi sy'n digwydd yng Nghymru. Yn 2023, roedd 119 o ddigwyddiadau llygredd amaethyddol wedi'u profi erbyn 1 Tachwedd. Bu 153 o ddigwyddiadau llygredd blynyddol ar gyfartaledd dros y 10 mlynedd diwethaf, a 167 o ddigwyddiadau ar gyfartaledd dros y 5 mlynedd diwethaf.

12. Mae CNC wrthi'n adolygu statws cyrff dŵr yng Nghymru. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn cadarnhau bod 140 o gyrff dŵr yng Nghymru yn methu â chael statws da oherwydd amaethyddiaeth, gyda 232 arall yn ymwneud ag amaethyddiaeth yn ôl pob tebyg a 118 yr amheuir eu bod yn methu oherwydd amaethyddiaeth, gan nodi mai amaethyddiaeth yw prif achos methiant.

13. Mae naw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonydd yng Nghymru – Cleddau, Eden, Gwyrfai, Teifi, Tywi, Glaslyn, Dyfrdwy, Brynbuga a Gwy. Mae'r afonydd hyn yn cynnal rhai o fywyd gwyllt mwyaf arbennig Cymru, gan gynnwys eogiaid yr Iwerydd, misglod perlog yr afon, cimychiaid crafanc wen a llyriad-y-dŵr arnofiol. Mae asesiad CNC o'r afonydd hyn wedi nodi bod achosion o dorri amodau ffosfforws yn gyffredin o fewn afonydd ACA Cymru, gyda dros 60% o'r cyrff dŵr hyn yn uwch na throthwyon ffosfforws.

14. Er bod y sefyllfa'n amrywio o ddalgylch i ddalgylch, mae'r gyfran fwyaf o'r ffosfforws yn tarddu o'r sector defnydd tir gwledig. Defnydd tir gwledig yw prif gyfrannwr ffosffadau mewn 6 o'r 9 afon ACA ac mewn 4 o'r 5 afon ACA sy'n methu, ac mae'n gyfrifol am 62% o'r llwyth ffosfforws ym mhob afon ACA.

15. Mae Llywodraeth Cymru a CNC wedi sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth i gyflwyno'r Rheoliadau CoAP, a fydd yn gwella gallu CNC i atal llygredd a gweithredu lle bo angen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau CoAP ac atal llygredd.

## Dull Rheoli Maethynnau Manylach

16. Trwy'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, fe wnaethom ymrwymo i weithio gyda'r gymuned ffermio wrth ddefnyddio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, er mwyn gwella ansawdd dŵr ac aer, gan dargedu gweithgareddau sy'n achosi llygredd.

17. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn ac mewn ymateb i bryderon penodol am barodrwydd y sector i gyflwyno rheoliadau o 1 Ionawr 2023 ar faint o nitrogen sydd i'w roi ar y tir o wrtaith da byw (170kg o nitrogen fesul hectar y flwyddyn), cyhoeddwyd ymgynghoriad ar gymorth a thystiolaeth yn ymwneud â chynigion ar gyfer cynllun trwyddedu am amser cyfyngedig. Byddai'r cynigion yn galluogi busnesau fferm i wneud cais am drwydded i ddefnyddio lefelau uwch o nitrogen bob blwyddyn (hyd at 250kg/ha), yn amodol ar angen cnydau a mesurau diogelu amgylcheddol ychwanegol, tan 2025.

18. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod lefelau uchel o gefnogaeth i'r cynllun, ar yr amod bod unrhyw gynllun yn syml ac yn hawdd i'w ddefnyddio gan fusnesau fferm. Yn gyffredinol, roedd y gefnogaeth a ddangoswyd yn derbyn yr egwyddorion bod yn rhaid dangos angen am ddefnyddio lefelau uwch o faethynnau, ac yn derbyn mesurau rheoli cysylltiedig er mwyn lliniaru risgiau amgylcheddol posibl.

19. Hefyd, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu pryderon am effeithiau posibl defnyddio lefelau uwch o faethynnau ar yr amgylchedd, ac yn nodi'r cyfyngiadau sydd wedi'u gosod ar sectorau eraill o ganlyniad i lygredd yn ein hafonydd a'n dyfrffyrdd. Nid yw'r dystiolaeth sy'n sail i Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 wedi

newid, ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth newydd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

20. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cyflwynwyd diwygiadau i Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, er mwyn cyflwyno 'Dull Rheoli Maethynnau Manylach' rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024. Mae'r dull gweithredu hwn yn ystyried yr ymgynghoriad a'r ymatebion, a bydd yn cyflwyno cyfnod penodol ar gyfer defnyddio lefelau uwch o faethynnau o wrtaith da byw sy'n pori, ochr yn ochr â mesurau ychwanegol i ddiogelu'r amgylchedd rhag peryglon llygredd.

# 3. Polisi Bwyd

## Dogfen Traws-bolisi - Materion Bwyd

21. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae materion bwyd a pholisïau cysylltiedig wedi cael llawer o sylw oherwydd materion cyfoes a phryderon am effeithiau hirdymor y system fwyd ar yr amgylchedd a chymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru wedi hen sefydlu cyfres o bolisïau cynhwysfawr sy'n gysylltiedig â bwyd sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Serch hynny, wrth graffu ar y Bil Bwyd (Cymru) fe sylwais ar ganfyddiad cryf ymysg rhanddeiliaid nad yw polisïau sy'n ymwneud â bwyd wedi'u cydgysylltu. Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi pwyslais mawr ar weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu a chyflwyno polisïau. Felly, ymrwymais i fynd i'r afael â'r canfyddiad hwn trwy gyhoeddi i'r Senedd ar 24 Mai y byddwn yn cyhoeddi dogfen fer yn crynhoi polisïau sy'n ymwneud â bwyd ar draws portffolios. Mae'r ddogfen hon, Materion Bwyd, wrthi'n cael ei datblygu, a byddaf yn hysbysu'r pwyllgor am ei chynnydd.

22. Cyflwynodd yr ETRAC sawl argymhelliad pe bai Bil Bwyd (Cymru) yn methu, ac yn dilyn fy ateb ar 5 Gorffennaf i'r argymhellion hyn, mae Llywodraeth Cymru'n rhoi ystyriaeth iddyn nhw.

23. O safbwynt argymhellion eraill y pwyllgor, byddaf yn parhau i fonitro ac ystyried y dystiolaeth yn ymwneud â'r angen posibl am unrhyw dargedau newydd. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr achos dros gynnwys bwyd yn y Dangosyddion Cenedlaethol pan fyddant yn cael eu hadolygu nesaf. Yn y cyfamser, byddwn yn ystyried a oes gwybodaeth ystadegol o ansawdd da eisoes ar gael yn ymwneud â bwyd y gellir ei chynnwys fel gwybodaeth gyd-destunol yn adroddiadau blynyddol Llesiant Cymru.

24. Mae polisi bwyd yn berthnasol i amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, felly rwy'n croesawu pwyslais Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar fwyd yn y strategaeth Cymru Can. Mae'n hanfodol bwysig bod cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cefnogi a buddsoddi mewn materion bwyd yn eu gwaith a'u cymunedau. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi Partneriaethau Bwyd Lleol sydd, yn ein barn ni, yn fodel cadarn ar gyfer cydgysylltiad ac arweinyddiaeth ar lawr gwlad. Mae'r model hwn, y ddyletswydd newydd ar gyrff cyhoeddus i wneud gwaith caffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, a'r broses o gyflwyno'r polisi prydau ysgol gynradd am ddim yn eang, i gyd yn gamau yn ein hymrwymiad i ddatblygu dull strategaeth bwyd cymunedol (CFS). Mae'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio'n ymrwymo i ddatblygu CFS sy'n hyrwyddo prosesau cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i gasglu tystiolaeth er mwyn llywio gwaith datblygu polisi ar gyfer y strategaeth. Roedd yn dda gennyf gyhoeddi canlyniadau gwaith grŵp ffocws manwl yn yr haf yn ymwneud â map o'r holl faterion roedd ein gwaith polisi cefndir wedi'u nodi. Mae'r gwaith hwn wedi amlygu materion y gallai'r CFS

fynd i'r afael â nhw ac yn crisialu'r egwyddorion y gallem eu mabwysiadu ar gyfer y strategaeth. Rwy'n argyhoeddedig bod yn rhaid i'r CFS rymuso a galluogi cymunedau, gan feithrin yr hyn sydd eisoes yn digwydd mewn cymunedau ledled Cymru. Ni fydd yn gorfodi atebion. Bydd yn ceisio datblygu dull gweithredu mewn partneriaeth er mwyn manteisio ar botensial y strwythurau llywodraethu sy'n bodoli a datgloi potensial asedau a gwybodaeth er mwyn eu defnyddio er budd cymunedau. Wrth i ni agosáu at 2024, byddaf yn cwblhau fy nghynigion i gyhoeddi'r CFS yn ddiweddarach yn 2024.

# 4. Cynllun Cynefin Cymru a rheoleiddio organig

## Cynllun Cynefin Cymru

25. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn cael ei lansio yn 2025, a bydd yn gadael 'bwlch' o 12 mis o leiaf rhwng contractau Glastir yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2023 a dechrau'r SFS neu unrhyw gynllun hirdymor sy'n ei ddisodli. Un o elfennau allweddol yr SFS fydd darparu cymorth i gynnal cynefinoedd drwy'r haen gyffredinol, a fyddai'n cynnal rhai o egwyddorion Glastir.

26. Wrth i gynllun amaeth-amgylchedd Glastir ddirwyn i ben, roeddem am i bob ffermwr cymwys yng Nghymru gael y cyfle i wneud cais am gymorth i ddiogelu tir cynefin a chyfrannu at gyflawni ein hymrwymiadau newid hinsawdd a bioamrywiaeth. Y cyfle olaf i ffermwyr Cymru wneud cais am gynllun o'r fath oedd yn 2017.

27. Felly, cyflwynwyd Cynllun Cynefin Cymru er mwyn cadw cymorth amgylcheddol yn ystod y cyfnod hwn rhwng 1 Ionawr 2024 a dechrau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2025, gan ddarparu cynnig cymorth amgen i bob ffermwr cymwys, gan gynnwys ffermwyr Glastir Uwch, Tiroedd Comin ac Organig pan fydd contractau'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

28. Yn ogystal â chefnogi'r cynefinoedd allweddol sy'n cael eu rheoli ar hyn o bryd drwy gontractau Glastir, ein nod oedd cynnwys ardaloedd ychwanegol o gynefinoedd lled-naturiol mewn prosesau rheoli gweithredol.

29. Roedd modd cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb yn y cynllun rhwng 29 Medi 2023 a 10 Tachwedd 2023. Derbyniwyd cyfanswm o 3,254 o Ddatganiadau o Ddiddordeb, gan gynnwys:

- 166 gan Gymdeithasau Pori presennol am gymorth ar dir comin. (Cyflwynodd 92.79% o ddeiliaid contract presennol Glastir - Tir Comin Ddatganiad o Ddiddordeb)

- 1,572 gan ffermwyr unigol sydd â chontract Glastir Uwch presennol. (Cyflwynodd 76.8% o ffermwyr sydd â chontract Glastir Uwch Ddatganiad o Ddiddordeb)

- 1,516 gan ffermwyr unigol nad oes ganddynt gontract Glastir Uwch presennol. (49% o Ddatganiadau o Ddiddordeb wedi'u cyflwyno gan ffermwyr unigol). Byddai'r tir cynefin a gaiff ei ddwyn dan reolaeth o'r 1,516 o Ddatganiadau o Ddiddordeb hyn yn dir cynefin ychwanegol, gan gefnogi ein hymrwymiadau amgylcheddol a bioamrywiaeth.

30. Mae ceisiadau'n destun gwiriadau gweinyddol ar hyn o bryd cyn ymgymryd â phroses ddethol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cynnig contract ym mis Rhagfyr a bydd contractau'n dechrau ar 1 Ionawr 2024.

## Rheoleiddio organig

31. Ers i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae safonau organig wedi newid yn yr UE. Cyflwynodd yr UE y newidiadau hyn er mwyn cynnwys cynhyrchion newydd y gellir eu hardystio'n organig, er mwyn annog cadwyni cynhyrchu byr a chynnyrch lleol lle bynnag y bo modd, a chynyddu amrywiaeth genetig planhigion ac anifeiliaid, ymhlith amcanion eraill. Er bod Gogledd Iwerddon yn dilyn Rheoliad 848/2013 newydd yr UE, mae safonau organig ym Mhrydain yn parhau i gael eu llywodraethu gan Reoliad 834/2007 yr UE a Ddargedwir.

32. Er mwyn cadw i fyny â rheoliadau newidiol mewn awdurdodaethau eraill, cytunodd llywodraethau'r Pedair Gwlad i sefydlu Grŵp Arbenigol ar y cyd ar Gynhyrchu Organig (EGOP) i ddarparu cyngor arbenigol diduedd ar faterion yn ymwneud â chynhyrchu, prosesu ac ardystio organig. Mae'r EGOP yn cyflawni'r swyddogaeth a oedd yn arfer cael ei chyflawni ar gyfer y DU gan Grŵp Arbenigol yr UE ar gyfer Cyngor Technegol ar Gynhyrchu Organig (EGTOP). Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol rhwng yr EGOP a swyddogion o bob llywodraeth ym mis Hydref 2023.

33. Bydd gwaith yr EGOP i ddarparu argymhellion ar gyfer newidiadau i safonau organig yn broses hir, oherwydd ehangder y ddeddfwriaeth yn y sector sydd angen ei hystyried, felly ni fydd unrhyw gynigion deddfwriaethol newydd yn cael eu cyflwyno am rai misoedd.

34. Mae safonau organig yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, mae rheoliadau wedi'u cysoni ar draws Prydain erioed, ac mae DEFRA yn gweithredu fel yr Awdurdod Cymwys ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru a'r Alban. Mae'r swyddogaeth hon yn cynnwys sicrhau bod rheolau organig yn cael eu gweithredu'n briodol gan y cyrff rheoli organig. Mae'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynhyrchion organig yn un hynod integredig ledled Prydain, felly mae swyddogion yn gweithio i sicrhau consensws ar gynigion i gyflwyno safonau organig i seneddau ym mhob gwlad, yn seiliedig ar gyngor yr EGOP.

# 5. Clefyd anifeiliaid – Clefydau Anifeiliaid Egsotig â Blaenoriaeth (Ffliw Adar, Firws y Tafod Glas a Firws Clefyd Gwaedlifol Episöotig)

Ffliw Adar

35. Mae ffliw adar yn glefyd anifeiliaid egsotig hysbysadwy sydd ar led yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Cadarnhawyd 208 achos o ffliw adar pathogenig iawn mewn dofednod ac adar caeth yn y DU yn y cyfnod 2022/2023, sy'n cwmpasu mis Hydref 2022 hyd at fis Medi 2023. Roedd hyn yn cynnwys 8 achos yng Nghymru (Ynys Môn, Sir y Fflint a Phowys), 160 achos yn Lloegr, 39 achos yn Yr Alban ac 1 achos yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd yr achos diwethaf yng Nghymru ei gadarnhau ar 27 Ebrill 2023. Ers dechrau mis Hydref 2023, rydym wedi symud i gyfnod achosion gweinyddol 2023/24 ar gyfer ffliw adar. Ers 19 Tachwedd, bu dau achos yn ystod y cyfnod newydd hwn yn 2023/24, y naill yn yr Alban a'r llall yn Lloegr.

36. Mae achosion o ffliw adar pathogenig iawn wedi'u cadarnhau ar amrywiaeth eang o safleoedd ledled y DU, gan gynnwys achosion diweddar a rhai hanesyddol. Mae'r achosion wedi cynnwys heidiau preifat iard gefn, ffermydd dofednod masnachol maint canolig sydd ag ychydig filoedd o adar, a safleoedd masnachol mawr sy'n gartref i gannoedd o filoedd o adar. Os yw achos o ffliw adar pathogenig iawn yn cael ei gadarnhau ar safle, mae pob aderyn ar y safle yn cael ei ddifa'n drugarog (efallai y bydd eithriadau prin), yn unol â'n strategaeth rheoli clefydau. Mae'r ceidwad yn cael iawndal am adar sydd wedi'u difa, ac eithrio'r rhai sydd eisoes wedi marw o'r clefyd adeg difa.

Mesurau Ataliol

37. Ar hyn o bryd, yng Nghymru, mae cyfyngiadau ar waith sy'n gwahardd ymgasglu Galliformes, fel ieir a thyrcwn, ac Anseriformes, sy'n cynnwys adar fel hwyaid a gwyddau. Ystyrir bod y rhywogaethau adar hyn yn peri risg uwch mewn perthynas â lledaenu ffliw adar. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn barhaus.

38. Yn gynharach eleni, ac yn hanesyddol, rydym wedi rhoi mesurau a chyfyngiadau eraill llymach ar waith, gan gynnwys gorfodaeth i gadw adar dan do a mesurau bioddiogelwch gwell gorfodol, sydd wedi bod yn berthnasol i bawb sy'n cadw adar yng Nghymru. Mae mesurau o'r fath wedi'u rhoi ar waith yn dilyn asesiadau risg a chyngor arbenigol, yn dilyn cadarnhad o nifer cynyddol o achosion mewn adar sy'n cael eu cadw ledled Prydain neu nifer uchel o achosion mewn adar gwyllt.

39. Nid oes unrhyw fesurau cadw adar dan do neu fioddiogelwch gorfodol ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd (ar 19 Tachwedd), gan nad oes angen mesurau o'r fath ar sail lefel y risg sy'n ein hwynebu. Fodd bynnag, rydym yn

monitro sefyllfa'r clefyd yn ofalus iawn ar lefel ddomestig a rhyngwladol, a gall mesurau o'r fath gael eu cyflwyno ar unrhyw adeg os oes angen gwneud hynny er mwyn diogelu ein hadar a'n sefyllfa fasnachu.

40. Rydym wedi darparu cyngor a gwybodaeth i geidwaid adar sy'n nodi mai bioddiogelwch trylwyr yw'r dull mwyaf effeithiol o reoli clefydau. Dylai pawb sy'n cadw adar fod â safonau uchel o fioddiogelwch bob amser er mwyn atal y perygl o achosion.

## Ffliw Adar mewn Adar Gwyllt

41. Trwy'r haf, ac yn gynharach eleni, gwelsom nifer uchel o achosion o ffliw adar mewn adar gwyllt ledled Cymru. Canfuwyd adar gwyllt a oedd wedi marw o ffliw adar mewn llawer o warchodfeydd natur a gwlyptiroedd, a bu farw llawer o adar yr arfordir o'r clefyd trwy gydol yr haf, yn enwedig yn ardaloedd Sir Benfro ac Ynys Môn. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, sefydlwyd grŵp ymateb brys i roi cyngor ar y sefyllfa, dan arweiniad cydweithwyr ym mholisi morol Llywodraeth Cymru. Roedd y grŵp yn cynnwys adaregwyr, partneriaid gweithredol ac arbenigwyr pwnc eraill.

42. Ar 7 Tachwedd, cafodd y risg o ffliw adar pathogenig iawn mewn adar gwyllt ym Mhrydain ei ostwng o 'uchel' i 'ganolig'. Dyma'r tro cyntaf i'r risg gael ei ostwng ers mis Mawrth, yn gynharach eleni.

43. Nid yw'r gostyngiad diweddar mewn risg yn golygu bod y risg wedi diflannu'n gyfan gwbl, ac mae ffliw adar yn parhau i ledaenu mewn adar gwyllt ledled Prydain. Rydym yn parhau i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd na ddylent gyffwrdd na chasglu adar gwyllt marw neu sy'n amlwg yn sâl. Rydym yn annog y cyhoedd i roi gwybod am adar gwyllt marw i linell gymorth DEFRA. Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn casglu ac yn profi llawer o adar marw fel rhan o'n gwaith cadw gwyliadwriaeth ar glefydau.

## Brechiad rhag Ffliw Adar

44. Fel rhan o Dasglu Brechiad rhag Ffliw Adar trawslywodraethol a diwydiant, rydym yn archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio brechiad fel mesur ataliol cyfunol. Ni fydd modd cyflwyno unrhyw raglen frechu'n gyflym, ac rydym yn parhau i ddilyn yr un polisi o beidio ag argymell brechu ataliol i amddiffyn yn erbyn achosion o ffliw adar, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

45. Rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa ffliw adar yn Ewrop ac yn fyd-eang, ac effeithiolrwydd mesurau rheoli clefydau sydd ar waith mewn mannau eraill, gan gynnwys datblygu brechlynnau. Bydd penderfyniadau'r dyfodol ar ddefnyddio brechiad yn seiliedig ar y cyngor gwyddonol, adaregol a milfeddygol diweddaraf.

## Diweddariadau Deddfwriaethol

46. Ar 6 Tachwedd, daeth Gorchymyn Ffliw Adar (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 i rym, gan ddiwygio Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006.

47. Diwygiwyd y diffiniad o "ddofednod" i sicrhau cysondeb â Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (WOAH) ac mae'r diffiniad o "safleoedd anfasnachol" wedi'i ddiwygio i sicrhau cysondeb â Chod Daearol WOAH.

48. Bydd y diwygiadau hyn yn helpu i hwyluso masnach ac yn gymorth i ni gyflwyno mesurau rheoli clefydau mwy cymesur wrth ymdrin â heidiau bach anfasnachol.

## Cofrestru Dofednod

49. Ym mis Mawrth, cynhaliwyd ymgynghoriad ledled Prydain ar gynlluniau i'w gwneud yn orfodol i bawb sy'n cadw adar gofrestru eu hadar gydag APHA. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023 a daeth i ben ar 31 Mai 2023 ar ôl derbyn dros 3,300 o ymatebion.

50. Ar hyn o bryd, dim ond pobl sy'n cadw 50 neu fwy o adar sy'n gorfod cofrestru eu heidiau, ond mae unrhyw geidwad yn gallu cofrestru'n wirfoddol. Trwy ei gwneud yn orfodol i bob ceidwad gofrestru ei adar, byddwn yn gallu gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu, megis hysbysu ceidwaid adar am achosion o glefydau, a hwyluso prosesau gwell o chwilio am achosion a'u canfod, gan y bydd gennym ddata ar bob safle sy'n wynebu risg sy'n agos at safle lle mae achos wedi'i gadarnhau.

51. Mae dogfen crynodeb o ymateb ffurfiol yn cael ei llunio a bydd yn cael ei chyhoeddi ar y cyd gan y tair gweinyddiaeth.

## Ffliw Adar ac Iechyd Pobl

52. Ar 16 Mai 2023, cyhoeddodd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) ddatganiad yn cadarnhau bod 2 berson wedi profi'n bositif am ffliw adar. Bu'r ddau berson yn gweithio ar fferm dofednod heintiedig yn Lloegr yn ddiweddar. Ni chafodd y naill na'r llall unrhyw symptomau ffliw adar.

53. Nid yw'r UKHSA wedi canfod tystiolaeth o drosglwyddiad rhwng pobl, ac ni wnaeth y canfyddiadau hyn newid lefel y risg i iechyd pobl, sy'n parhau i fod yn isel iawn i'r boblogaeth gyffredinol.

## Firws y Tafod Glas

54. Mae firws y tafod glas yn glefyd firaol heb fod yn heintus sy'n effeithio ar anifeiliaid cnoi cil domestig a gwyllt (defaid, gwartheg a geifr), sy'n cael ei drosglwyddo gan bryfed, yn enwedig gwybed sy'n brathu.

## Y Sefyllfa Bresennol

55. Ar 2 Tachwedd, nododd Sefydliad Pirbright ganlyniad prawf Tafod Glas annegyddol mewn un fuwch mewn buches o 75 a fagwyd ar fferm ar safle yng Nghaint, ger Caergaint, Lloegr, yn dilyn profion arferol ar gyfer y Tafod Glas. Ar 11 Tachwedd, cadarnhawyd clefyd, fel BTV-3 (seroteip penodol o firws y Tafod Glas).

56. Cyflwynwyd Parth Rheoli Dros Dro 10km lleol o amgylch y safle sy’n cyfyngu ar symudiadau anifeiliaid sy'n agored i niwed, ac eithrio o dan drwydded.

57. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd bod BTV-3 yn lledaenu ym Mhrydain nac yn effeithio ar anifeiliaid eraill, felly mae hyn yn cael ei ystyried yn achos unigol o BTV-3. Fodd bynnag, mae Prydain wedi colli ei rhyddid BTV-3 sy'n golygu bod yna oblygiadau ar gyfer masnach.

58. Dechreuodd gwaith samplu a phrofi yn dilyn cadarnhad o'r achos hwn ar bob safle o fewn 5km i'r achos cyfeirio, er mwyn canfod a oes achosion eraill o BTV-3 yn yr ardal. Bydd canlyniadau'r wyliadwriaeth hon yn cael eu defnyddio i lywio gwyliadwriaeth bellach, yn ôl yr angen. Mae gwyliadwriaeth fector yn parhau trwy ddefnyddio deuddeg magl gwybed a osodwyd ledled Prydain sy'n cael eu monitro bob wythnos.

59. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn diweddaru'r strategaeth rheoli BTV ar gyfer Prydain. Mae gwybodaeth yn cael ei pharatoi ar gyfer ceidwaid anifeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach, er mwyn eu hysbysu am y clefyd, pa arwyddion clinigol i chwilio amdanynt, sut i roi gwybod am y clefyd, a'r angen i fod yn wyliadwrus.

## Masnach

60. Ers mis Mai 2019 (lle mae gofynion (EHC) wedi'u bodloni), cynhaliwyd profion BTV ôl-fewnforio ar 100% o anifeiliaid byw a allai gael yr haint mewn 100% o lwythi o wledydd Ewropeaidd y credir bod ganddynt risg uchel o anfon anifeiliaid â haint BTV heb ei ganfod, (mae hyn yn berthnasol i wledydd sydd ag achosion BTV-8 a BTV-4 parhaus).

61. Nid yw mewnforion anifeiliaid byw sy'n cnoi cil o'r Iseldiroedd a Gwlad Belg yn cydymffurfio â'r dystysgrif iechyd allforio (EHC) erbyn hyn, sy'n ymwneud â rhai gofynion brechu ar gyfer BTV, gan nad oes brechlyn ar gael ar gyfer BTV-3, felly ni all yr Iseldiroedd na Gwlad Belg allforio anifeiliaid byw sy'n cnoi cil neu blasm cenhedlu i Brydain.

62. Yn sgil cyfyngiadau sydd bellach ar waith yn Sbaen, Ffrainc, yr Eidal a Phortiwgal ar gyfer firws arall, Clefyd Gwaedlifol Episöotig (EHDV), mae llawer llai o wledydd yr UE yn gallu bodloni gofynion EHC ar gyfer allforio anifeiliaid byw i Brydain.

### Feirws Clefyd Gwaedlifol Episöotig (EHDV)

63. Mae clefyd gwaedlifol episöotig yn glefyd anifeiliaid hysbysadwy sy'n effeithio ar wartheg, ceirw ac anifeiliaid eraill sy'n cnoi cil.

64. Mae Llywodraeth Cymru'n monitro lledaeniad y feirws clefyd gwaedlifol episöotig (EHDV) yn Ewrop yn ofalus yn dilyn achosion sydd wedi'u cadarnhau mewn gwartheg yn yr Eidal, Sbaen, Portiwgal a Ffrainc.

65. Mae EHD yn debyg i glefydau difrifol ond prin eraill sy'n effeithio ar anifeiliaid domestig sy'n cnoi cil gan gynnwys firws y Tafod Glas (BTV) a Chlwy'r Traed a'r Genau (FMD), felly mae'n bwysig cadarnhau'r diagnosis pan fydd achosion yn digwydd. Bydd gwybed sy'n brathu yn trosglwyddo'r feirws i dda byw yn ystod misoedd y gwanwyn, yr haf a'r hydref yn bennaf, pan fydd fectorau gwybed yn fwyaf gweithredol.

66. Mae cyfyngiadau masnach wedi'u cyflwyno ar gyfer symud carnolion byw o ranbarthau sydd wedi'u heffeithio yn Ewrop. Mae gofynion Ardystio Iechyd presennol yn atal Ffrainc, Sbaen, yr Eidal a Phortiwgal rhag anfon llwythi o anifeiliaid byw i Brydain gan nad ydyn nhw'n rhydd o EHDV bellach.

67. Yn ogystal, gan nad oes brechlyn anweithredol ar gael yn fasnachol ar gyfer EHD, a bod perygl i'r clefyd ledaenu o Ewrop, bydd profion ôl-fewnforio ar gyfer EHDV yn cynnwys pob anifail byw sy'n cnoi cil sy'n cael ei fewnforio o wledydd sy'n rhydd o'r clefyd ond sydd o fewn 150km i wledydd sydd ag achosion wedi'u cadarnhau.

68. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn datblygu strategaeth rheoli EHDV a byddant yn darparu rhagor o wybodaeth i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth yn y Ffair Aeaf.

# 6. TB Buchol

## Y Rhaglen i Ddileu TB

69. Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad llafar ar TB buchol ar 14 Tachwedd a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ers mis Mawrth, gan amlygu canlyniadau polisi allweddol ar gyfer cyflawni dros gyfnod 5 mlynedd y cynllun cyflawni, gan gynnwys:

70. Adolygu Cymorth TB yng nghyd-destun ymgysylltu'n ehangach â ffermwyr, a rhagor o ystyriaeth o argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer gwella ymgysylltiad â'r diwydiant ffermio.
    - Cynhaliwyd gweithdy yn y Sioe Frenhinol, ac mae cyfarfod rhwng swyddogion ac arweinwyr TB milfeddygol preifat yn cael ei drefnu ar hyn o bryd er mwyn trafod eu rôl yn y dyfodol.
    - Mae dull cydweithredol o rannu holl wybodaeth Llywodraeth Cymru am TB â ffermwyr a'r diwydiant ar waith bellach, ac mae Undebau a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn cael cyfle i wneud sylwadau ar gynnwys a chyflwyno'r wybodaeth.
    - Rydym yn gweithio gyda phartneriaid y Llywodraeth i ganfod ffyrdd o fynd i'r afael â phryderon cyfathrebu sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

71. Dyfarnu prosiect Sir Benfro i ddarparu dull cydweithredol ar lefel leol.
    - Mae ymateb practisau wedi bod yn gadarnhaol iawn. Hyd yn hyn, mae'r 6 practis milfeddygol sy'n cymryd rhan wedi cael eu cynrychioli yn y diwrnodau hyfforddi i baratoi milfeddygon. Mae cyfanswm o 15 o filfeddygon wedi mynychu 2 ddiwrnod o hyfforddiant. Roedd Diwrnod 1 yn canolbwyntio ar Fioddiogelwch a Diwrnod 2 yn canolbwyntio ar Wyddoniaeth.
    - Mae'r prosiect ar y trywydd iawn ac mae milfeddygon wrthi'n ymgysylltu â ffermydd addas.

72. Cynnydd ar y trefniadau Llywodraethu newydd ar gyfer y Rhaglen, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen Penodiadau Cyhoeddus a Grŵp Cynghori Technegol.
    - Wrth lansio'r cynllun cyflawni 5 mlynedd newydd, cyhoeddwyd y bydd Grŵp Cynghori Technegol (TAG) yn cael ei sefydlu i gynorthwyo'r Rhaglen TB, a phenodwyd yr Athro Glyn Hewinson, Cadeirydd Sêr Cymru'r Ganolfan Ragoriaeth TB i arwain y gwaith hwn. Un o flaenoriaethau allweddol y TAG fydd ystyried y drefn bresennol o brofion TB o ystyried yr amrywiaeth eang o safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.
    - Mae hysbysebion ar gyfer y Bwrdd Rhaglen Penodiadau Cyhoeddus a'r Grŵp Cynghori Technegol yn fyw, ac rydym wedi ymestyn y cyfnod ymgeisio i sicrhau bod cynifer o ymgeiswyr addas â phosibl yn cael cyfle i wneud cais.
    - Disgwylir i'r broses sifftio a chyfweld gael ei chynnal rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror.

73. Ymrwymiad i adolygu lladd buchod a heffrod cyflo sydd wedi'u heffeithio gan TB ar ffermydd, a gweithio gydag undebau amaeth i ddeall y pryderon yn ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant ein ffermwyr.
    - Rydym yn gwbl ymwybodol o'r dinistr y mae achos o TB yn ei achosi i deulu a busnes ffermio. Yn aml, nid oes modd osgoi lladd buchod a heffrod cyflo sydd wedi'u heffeithio gan TB ar y fferm, ond mae'n olygfa sy'n peri gofid mawr.
    - Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Cynghori Technegol yn rhoi blaenoriaeth i ystyried y polisi hwn, unwaith y mae wedi'i sefydlu.

74. Yn ogystal â'r tueddiadau hirdymor cyhoeddedig, sy'n dangos cynnydd da, mae'r datganiad yn cyfeirio at welliannau sydd wedi'u gwneud dros y 5 mlynedd diwethaf.
    - Roedd 94.7% o fuchesi yn rhydd o TB ar ddiwedd Mehefin 2023.
    - Tueddiadau tymor canolig:
        i. Yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2023, roedd nifer y digwyddiadau newydd wedi gostwng i **609** o'i gymharu â **746** am yr un cyfnod hyd at fis Mehefin 2018, sy'n **ostyngiad** o **18.4%**.
        ii. Yn y 12 mis hyd at fis Mehefin 2023, roedd nifer yr anifeiliaid a laddwyd er mwyn rheoli TB wedi gostwng o **10,024** i **9,529** am yr un cyfnod hyd at fis Mehefin 2018, sy'n **ostyngiad** o **4.9%**.
        iii. Ar 30 Mehefin 2023 roedd 898 o fuchesi dan gyfyngiadau, o'i gymharu â **857** o fuchesi dan gyfyngiadau ar 30 Mehefin 2018. Mae hyn yn gynnydd o **4.8%.**
        iv. Mae mynychder mewn buchesi wedi **cynyddu** o **5.2%** ar 30 Mehefin 2018 i **5.3%** ar 30 Mehefin 2023.
    - Ardal TB Uchel (Gorllewin) - mae nifer yr achosion newydd wedi gostwng dros 25% o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl.

75. Ymgysylltu â'r diwydiant ar drefniadau ar gyfer Taliadau TB yn y dyfodol.
    - Mae yna orwariant hanesyddol, hirdymor yn erbyn y gyllideb taliadau TB. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorwario ar y gyllideb derfynol ar gyfer taliadau TB ers 2015-16. Rhagwelir y bydd gorwariant o dros £1m yn erbyn y gyllideb taliadau TB eto ar gyfer 2023-24.
    - Mae'r trefniadau taliadau TB presennol yn gwbl anghynaladwy i'r trethdalwr, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Nid ydynt yn cynnig llawer o gymhelliant chwaith i ffermwyr atal TB yn eu buchesi neu ddilyn ymarfer da.

76. Daeth y diwygiad i Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 i rym ym mis Chwefror 2024 er mwyn cryfhau ein dull o ddileu TB.
    - Adfer Profion Cyn Symud wrth symud gwartheg yn yr Ardal TB Isel, gan barhau i gynnal Profion Ar ôl Symud.
    - Cyflwyno Profion Cyn Symud wrth symud gwartheg o Ardaloedd TB Uchel, o Ardal Risg Uchel Lloegr ac o Ogledd Iwerddon i ddaliadau mewn Ardaloedd TB Canolradd.

77. Mesurau i fynd i'r afael â chynnydd yn nifer yr achosion o TB yn Ynys Môn, trwy gynyddu mesurau rheoli gwartheg a brechu moch daear.
    - Mae mesurau rheoli gwartheg yn cael eu hystyried, ochr yn ochr â newid deddfwriaeth i gyflwyno Profion Cyn Symud yn yr Ardal TB Isel.
    - Fel rhan o'r Arolwg o Foch Daear Marw, nid oes unrhyw achosion o foch daear marw â TB wedi cael eu nodi ar Ynys Môn hyd yma.
    - Cynhaliwyd arolwg moch daear a bioddiogelwch ar Ynys Gybi ym mis Mawrth 2023 er mwyn asesu lefelau gweithgarwch moch daear. Cwblhawyd blwyddyn gyntaf prosiect brechu moch daear pedair blynedd ar Ynys Gybi ym mis Hydref.

78. Y cynnydd da sydd wedi'i wneud wrth recriwtio a defnyddio profwyr TB lleyg er mwyn cynyddu gwytnwch a chynaliadwyedd wrth ddarparu gwasanaethau milfeddygol.
    - Ar 28 Medi 2023, mae gennym 48 o Brofwyr Twbercwlin Awdurdodedig, ac mae 47 ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant ac wedi cael awdurdodiad llawn.

## Newidiadau Deddfwriaethol

79. Fel y nodwyd yn y cynllun cyflawni, bydd y newidiadau deddfwriaethol canlynol yn dod i rym ar 1 Chwefror 2024:
    - Adfer Profion Cyn Symud wrth symud gwartheg yn yr Ardal TB Isel, gan barhau i gynnal Profion Ar ôl Symud.
    - Cyflwyno Profion Ar ôl Symud wrth symud gwartheg o Ardaloedd TB Uchel, o Ardal Risg Uchel Lloegr ac o Ogledd Iwerddon i ddaliadau mewn Ardaloedd TB Canolradd.
    - Cyflwyno gofyniad cyfreithiol i ffermwyr beidio â symud gwartheg rhwng diwrnod prawf 1 a diwrnod prawf 2 a rhwng profion gwaed a'r adeg y ceir y canlyniadau.
    - Cyflwyno gofyniad yn mynnu y dylid ceisio caniatâd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu sampl, cynnal prawf, cynnal prawf ar unrhyw sampl a sicrhau y rhoddir gwybod yn syth am ganlyniadau profion o'r fath.
    - Gwahardd bwydo llaeth heb ei basteureiddio i dda byw ar safleoedd OTFW.
    - Nodi ar ibTB ers sawl blwyddyn mae'r fuches wedi bod yn rhydd o TB.

## Brechu Gwartheg

80. Mae angen i'r Llywodraeth ddangos bod y brechlyn Gwartheg BCG a'r prawf croen DIVA cysylltiedig yn ddiogel ac yn effeithiol i'w defnyddio, cyn i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD), y corff sy'n gyfrifol am drwyddedu cynhyrchion o'r fath, ddarparu awdurdodiad marchnata.

81. Fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth, mae angen cynnal treialon maes mewn dau gam. Dechreuodd Cam 1 ym mis Mehefin 2021, ac mae wedi'i gwblhau. Mae Cam 2 wedi dechrau ac yn parhau.

82. Roedd Cam 1 yn cynnwys defnyddio'r prawf croen DIVA yn unig mewn buchesi treial, er mwyn creu data diogelwch a phenodolrwydd* ar gyfer y prawf. Mae Cam 2 yn defnyddio'r brechlyn Gwartheg BCG a'r prawf croen DIVA mewn buchesi treial, er mwyn casglu rhagor o ddata diogelwch a phenodolrwydd.

83. Bydd y treialon maes yn parhau nes bod digon o ddata wedi'i gasglu i symud ymlaen i'r cam nesaf, sy'n cynnwys llunio pecyn o ddogfennau i gefnogi cais i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) am awdurdodiadau marchnata ar gyfer y brechlyn Gwartheg BCG a'r prawf croen DIVA.

84. Mae angen awdurdodiadau marchnata gan VMD cyn y gellir defnyddio'r brechlyn a'r prawf DIVA yn y maes fel rhan o'r rhaglen Dileu TB. Mae awdurdodiad marchnata'n golygu bod modd dileu neu lacio'r rhwystrau cyfreithiol presennol i frechu gwartheg ym Mhrydain.

85. Mae Cymru'n cefnogi gwaith i ddatblygu cynlluniau i ddefnyddio'r brechlyn Gwartheg BCG mewn sefyllfaoedd treialon llai yn y lle cyntaf, cyn ei ddefnyddio'n ehangach, unwaith y mae awdurdodiadau marchnata wedi'u darparu. Mae'r cyntaf o gyfres o gyfarfodydd rhanddeiliaid Cymru wedi cael ei gynnal.

## Llywodraethu

86. Blaenoriaeth arall i'r Grŵp Cynghori Technegol fydd ystyried ac adolygu buchod a heffrod cyflo sydd wedi'u heffeithio gan TB. Bydd hyn yn debygol o gynnwys cyfathrebu â ffermwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

87. Hefyd, fe wnaethom gyhoeddi sefydlu Bwrdd Rhaglen Dileu TB newydd i gefnogi'r Rhaglen TB. Byddaf yn defnyddio dull penodiadau cyhoeddus i benodi aelodau'r ddau fwrdd a chadeirydd Bwrdd y Rhaglen.

88. Un o brif flaenoriaethau Bwrdd y Rhaglen Dileu TB fydd ystyried sut i wella dulliau cyfathrebu yn y diwydiant a datblygu argymhellion eraill gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

89. Mae'r cyfnod recriwtio ar gyfer Bwrdd y Rhaglen Penodiadau Cyhoeddus a'r Grŵp Cynghori Technegol wedi'i ymestyn tan 4 Rhagfyr er mwyn sicrhau bod cynifer o ymgeiswyr addas â phosibl yn cael cyfle i wneud cais. Disgwylir i'r broses sifftio a chyfweld gael ei chynnal rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror.

## Ynys Môn

90. Mae APHA wedi nodi bod y sefyllfa'n dirywio ar Ynys Môn. Mae data gwyliadwriaeth yn dangos bod 25 o achosion agored ar Ynys Môn ar 30

Mehefin 2023. Mae hyn yn cymharu ag 8 yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

91. Cwblhawyd ymchwiliad epidemiolegol i asesu'r hyn sy'n sbarduno'r clefyd yn Ynys Môn, ac mae asesiad cychwynnol yn awgrymu bod lledaenu'r haint o fannau problemus TB yn Sir Ddinbych/Conwy yn rhannol gyfrifol. Mae Ynys Môn yn rhan fawr o Ardal TB Isel Cymru, felly mae atal lefel gynyddol o'r clefyd yn yr ardal yn flaenoriaeth.

92. Anfonwyd llythyr at geidwaid gwartheg yn yr ardal benodol ym mis Mawrth 2023 yn amlinellu'r broblem a'u cynghori ar sut i ddiogelu eu busnesau.

93. Mae cyflwyniadau o dan yr Arolwg o Foch Daear Marw yn awgrymu bod y boblogaeth moch daear ar Ynys Môn ar Ynys Gybi yn bennaf.

94. Fel rhan o'r Arolwg o Foch Daear Marw, nid oes unrhyw achosion o foch daear marw â TB wedi cael eu canfod ar Ynys Môn hyd yma.

95. Cynhaliwyd arolwg moch daear a bioddiogelwch ar Ynys Gybi ym mis Mawrth 2023 er mwyn asesu lefelau gweithgarwch moch daear. Cwblhawyd blwyddyn gyntaf prosiect brechu moch daear pedair blynedd ar Ynys Gybi ym mis Hydref.

96. Mae mesurau rheoli gwartheg yn cael eu hystyried, ochr yn ochr â newid deddfwriaeth i gyflwyno Profion Cyn Symud yn yr Ardal TB Isel.

97. Mae opsiynau i fynd i'r afael â TB ar Ynys Môn yn cael eu hystyried yn dilyn yr ymchwiliad epidemiolegol. Bydd mesurau'n amodol ar asesiad gan APHA ac yn cael eu cyflwyno yn amodol ar adnoddau, dichonoldeb gweithredu a'r gost gysylltiedig.

### Prosiect Sir Benfro

98. Ar ôl ystyried sut i fynd i'r afael â lefelau haint sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn rhannau o Sir Benfro, lle mae digwyddedd a nifer yr achosion o TB wedi cynyddu er gwaetha'r ffaith fod y sefyllfa gyffredinol wedi gwella, ac yn unol ag ymatebion i'n hymgynghoriad ac adroddiad Grŵp Ffocws TB Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, sefydlwyd prosiect i archwilio trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer dileu TB ar lefel leol.

99. Mae'r prosiect dan arweiniad y diwydiant wedi cael ei sefydlu i weithio ar sampl fach o ffermydd yn Sir Benfro, gyda'r nod o rymuso milfeddygon a ffermwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a dangos arweiniad wrth reoli'r clefyd. Mae'r prosiect yn datblygu ac yn gweithredu dulliau newydd o reoli TB buchol, yn ychwanegol at y mesurau statudol a ddefnyddir yn yr ardal ar hyn o bryd.

100. Mae'n canolbwyntio ar nodi'r risg clefyd gweddillol ymhlith gwartheg sy'n cael profion clir, a datblygu llwybrau ar gyfer lleihau'r risg o drosglwyddo o fuwch i fuwch. Gwneir hyn trwy ddefnyddio dull seiliedig ar risg yn ymwneud â nodi a rheoli anifeiliaid risg uchel i'w lladd a thrwy sicrhau bod milfeddygon yn goruchwylio arferion bioddiogelwch yn fanwl.

101. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu tendr ac mae'r prosiect wedi dechrau.

102. Mae ymateb practisau wedi bod yn gadarnhaol iawn. Hyd yn hyn, mae'r chwe phractis milfeddygol sy'n cymryd rhan wedi cael eu cynrychioli yn y diwrnodau hyfforddi i baratoi milfeddygon. Mae cyfanswm o 15 o filfeddygon wedi mynychu 2 ddiwrnod o hyfforddiant. Roedd Diwrnod 1 yn canolbwyntio ar Fioddiogelwch a Diwrnod 2 yn canolbwyntio ar Wyddoniaeth.

103. Mae'r prosiect ar y trywydd iawn ac mae milfeddygon wrthi'n ymgysylltu â ffermydd addas.

## Lladd buchod a heffrod cyflo ar y fferm sydd wedi'u heffeithio gan TB

104. Rydym wedi gweld y dinistr i deuluoedd a busnesau ffermio oherwydd achosion o TB. Yn aml, nid oes modd osgoi lladd adweithyddion TB ar y fferm, ond mae'r olygfa hon yn peri gofid mawr.

105. Mewn llawer o achosion, ni ellir osgoi lladd gwartheg ar y fferm os na ellir eu cludo i ladd-dy, neu os nad ydynt yn addas i'w bwyta gan bobl.

106. Mae tua 10% o'r anifeiliaid sy'n cael eu prisio i'w symud yn cael eu lladd ar y fferm, ac mae tua 10% o'r rhai sy'n cael eu lladd ar y fferm yn cael eu lladd am resymau bwrw llo.

107. Ar ôl gwrando ar bryderon a chynnal trafodaethau gyda'r diwydiant yn ystod 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru dreialu cynllun ewthanasia ar y fferm ar gyfer gwartheg tua diwedd eu beichiogrwydd yn 2020. Fodd bynnag, oherwydd defnydd isel o'r cynllun gan ffermydd a oedd wedi'u heffeithio, a'r anawsterau logistaidd cysylltiedig o symud anifeiliaid a oedd wedi'u heffeithio gan TB o fewn 10 diwrnod gwaith, daeth y cynllun peilot i ben.

108. Er bod yr olygfa'n peri gofid i'r ceidwad, awgrymodd cyngor gan y Coleg Milfeddygol Brenhinol ar y pryd nad oes unrhyw ofid yn cael ei achosi i ffoetws os caiff ei fam ei saethu neu ei llad trwy bigiad marwol, ond bydd modd gweld y ffoetws yn symud wrth ddefnyddio'r naill ddull neu'r llall.

109. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i APHA weithio'n agos gyda ffermwyr sy'n cael eu heffeithio gan y sefyllfa hon ar ddechrau'r broses, gan esbonio'r weithdrefn yn glir a'u cefnogi trwy'r gwahanol gamau.

110. Mae tystiolaeth ar gael o Loegr ar sut mae'r polisi ar oedi cyn symud adweithyddion yn gweithio, a bydd Llywodraeth Cymru’n defnyddio'r dystiolaeth hon i ystyried y mater hwn ymhellach.

111. Bydd y Grŵp Cynghori Technegol yn rhoi blaenoriaeth i ystyried y polisi hwn, unwaith y mae wedi'i sefydlu.

## Taliadau am wartheg sydd wedi'u heffeithio gan TB (“Iawndal”)

112. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ad-dalu swm rhesymol i ffermwyr am wartheg sy'n cael eu lladd oherwydd TB.

113. Er gwaethaf y mesurau a gyflwynwyd gennym, rydym yn gorwario yn barhaus yn erbyn ein cyllideb iawndal TB. Rydym yn rhagweld gorwariant o dros £1m yn y flwyddyn ariannol hon (2023-24). Nid yw hyn yn gynaliadwy yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

114. Nid ydym yn barod eto i gyhoeddi trefn ddiwygiedig ar gyfer taliadau TB, ac mae angen gwneud llawer mwy o waith gyda’r diwydiant er mwyn ystyried yr opsiynau yn fanylach.

115. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio tuag at gyflwyno trefn ddiwygiedig ar gyfer taliadau TB er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell rhwng digolledu ceidwaid am wartheg sydd wedi'u heffeithio gan TB, a rheoli arian ac adnoddau trethdalwyr. Mae Llywodraeth Cymru’n credu y dylai unrhyw drefn newydd gymell arferion ffermio da a bod yn gyson â safonau bioddiogelwch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

116. Mae hwn yn faes cymhleth. Felly, hoffem ymgysylltu â'r diwydiant a ffermwyr er mwyn archwilio ymarferoldeb cynnig ar gyfer ardoll a phrisiadau tabl gyda chynnydd, er mwyn canfod a allai'r cynigion hyn arwain at yr arbedion cost sydd eu hangen arnom mewn perthynas â thaliadau TB.

117. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i dalu ffermwyr am anifeiliaid sy'n cael eu lladd o dan y Rhaglen, felly mae'n rhaid dod o hyd i gyllid i dalu am y gorwariant hwn o flwyddyn i flwyddyn, gan ddargyfeirio cyllid mawr ei angen o feysydd eraill.

# 7. Lles Anifeiliaid – Deddf Cŵn Peryglus 1991 - newidiadau, effeithiau a chanlyniadau. Perchnogaeth Gyfrifol ar Gŵn a'u Bridio yng Nghymru

Newidiadau i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991

118.Mae Deddf Cŵn Peryglus (DDA) 1991 yn ddeddfwriaeth a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU. Yn dilyn nifer o ymosodiadau diweddar, ar ddydd Gwener 15 Medi, cyhoeddodd Prif Weinidog Llywodraeth y DU, Rishi Sunak, waith i ddiffinio ac ychwanegu cŵn American Bully XL at y DDA.

119.Mae swyddogion Defra wedi bod yn gweithio'n gyflym iawn i ddiwygio deddfwriaeth cyn diwedd 2023.

120.Cyflwynodd Llywodraeth y DU yr Offeryn Statudol sy'n gwahardd bridio/gwerthu/cyfnewid neu ail-gartrefu cŵn XL Bullies ar 31 Hydref. Bydd yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

121.Bydd ail Offeryn Statudol yn amlinellu'r eithriadau a'r cynllun iawndal, a chyflwynir trydydd Offeryn Statudol yn ymwneud â chanolfannau achub ac ailgartrefu.

122.Cyhoeddwyd canllawiau ar 31 Hydref ar Gov.uk: Prepare for the ban on XL Bully dogs - GOV.UK (www.gov.uk)

# 8. Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE 2014-2020

123. Rhaid i holl daliadau Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE gael eu gwneud erbyn 31 Rhagfyr er mwyn manteisio'n llawn ar yr arian sydd ar gael gan yr UE. Cyfanswm gwerth y rhaglen yw £846,449,504.

124. Lefel bresennol yr ymrwymiad yw £858.59m, sef ymrwymiad o 101.43% mewn cyllid. Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'i gor-raglennu i ystyried tanwariant disgwyliedig ar rai prosiectau.

125. Mae cyfanswm gwariant y rhaglen dros £807.46m, sef 95.39% o gyfanswm gwerth y rhaglen, ac mae £539.53m ohono yn gyllid yr UE.

126. Mae gwerth bron i £50m o hawliadau sydd wedi'u derbyn wrthi'n cael eu prosesu, gan gynnwys dros £30m o hawliadau Glastir 2023; bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu talu ar 1 Rhagfyr.

127. Mae swyddogion yn gweithio'n galed i gwblhau'r holl wiriadau dilysu angenrheidiol er mwyn prosesu'r holl hawliadau sydd wedi'u derbyn erbyn diwedd y flwyddyn.

128. Cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd y chweched addasiad i'r Rhaglen ar 6 Tachwedd 2023. Hwn yw'r addasiad terfynol i'r rhaglen. Mae'n canolbwyntio'n llwyr ar yr agweddau ariannol, er mwyn sicrhau'r defnydd gorau posibl/defnydd llawn o'r arian.

# 9. Diweddariad ar y cynllun Ffermio Cynaliadwy

## Ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

### Llinell amser datblygu

129.Cyhoeddir yr ymgynghoriad ffurfiol terfynol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ym mis Rhagfyr. Rydym yn rhagweld ymgynghoriad 12 wythnos (mae'r dyddiadau i'w cadarnhau).

130.Mae swyddogion yn cynnal cyfres o weithdai ar gyfer rhanddeiliaid i ddarparu gwybodaeth i'r prif randdeiliaid cyn yr ymgynghoriad. Mae cyfres o sesiynau gwybodaeth manylach ar gyfer rhanddeiliaid wedi'u trefnu ym mis Rhagfyr. Bydd hwn yn gyfle i sicrhau bod sefydliadau sydd â chylch gwaith cynghori ffermwyr (fel yr undebau ffermio, Cyswllt Ffermio, grwpiau cymorth i ffermwyr) yn deall diben a chynnwys yr ymgynghoriad er mwyn cynghori eu rhwydweithiau.

131.Mae cyfres o ddigwyddiadau sioeau teithiol sy'n canolbwyntio ar ffermwyr (cyfanswm o 10 ledled Cymru) yn cael eu trefnu ar gyfer mis Ionawr / Chwefror. Bydd yn gyfle i ffermwyr ddysgu mwy am gynnwys yr ymgynghoriad a sut i ddechrau paratoi ar gyfer dechrau'r cynllun yn 2025.

132.Bydd penderfyniad terfynol ar gyflwyno'r Cynllun yn cael ei wneud yn 2024 ar ôl gwerthuso'r ymgynghoriad terfynol hwn, y dadansoddiad economaidd a thystiolaeth arall. Bydd dyluniad, rheolau a chyfraddau taliadau'r cynllun terfynol yn cael eu cyhoeddi yn 2024. Bydd ffermwyr yn dechrau ymuno â'r cynllun yn 2025.

### Cynnwys yr ymgynghoriad

133.Mae cynigion y cynllun yn seiliedig ar yr un strwythur cynllun tair haen a gafodd ei gynnig yng nghyhoeddiad 2022 *Cynllun Ffermio Cynaliadwy: cynigion bras ar gyfer 2025:*

- Gweithredoedd Cyffredinol – cyfres safonol o weithredoedd y bydd angen i bob ffermwr eu cyflawni i dderbyn Taliad Sylfaenol Cyffredinol.
- Gweithredoedd Opsiynol – gellir talu mwy i ffermwyr sy'n dewis mynd ymhellach a dewis o restr o Weithredoedd Opsiynol sy'n gweddu orau i'w fferm a'u huchelgeisiau.
- Gweithredoedd Cydweithredol – cyfle i ffermwyr weithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau ar raddfa ranbarthol, dalgylch, a chenedlaethol, na ellir eu cyflawni gan un fferm.

134.Mae'r ymgynghoriad arfaethedig yn cynnwys sawl cynnig diwygiedig yn deillio o waith datblygu parhaus ac adborth a dderbyniwyd yn ystod rhaglen gyd-lunio helaeth (cyhoeddwyd canfyddiadau'r rhaglen gyd-lunio ym mis Gorffennaf 2023). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dull Gweithredu Graddol – er mwyn rheoli nifer y newidiadau y byddai'n rhaid i ffermwr eu gwneud ar yr un pryd, rydym wedi cynnig dull gweithredu graddol ar gyfer dechrau cynllun 2025. Bydd y Gweithredoedd Cyffredinol ond yn cael eu lansio i roi digon o amser i ffermwyr ddeall y Gweithredoedd a'u rhoi ar waith, yna bydd Gweithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol yn cael eu cyflwyno dros y cyfnod pontio dilynol.

- Bydd y Cynllun ar gael i bawb o 2025 - bydd ffermwyr yn gallu dewis pryd i ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy o 2025 ymlaen, ond rydym yn bwriadu sicrhau bod y Cynllun ar gael i bawb yn 2025.

- Cydnabod yr holl gynefinoedd a choetiroedd presennol - fe wnaethom gynnig gofynion cynllun ar gyfer isafswm o 10% o orchudd coed ar bob fferm, ac (yn ogystal) isafswm o 10% o gynefin ar bob fferm a reolir at ddibenion bioamrywiaeth ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd. Nid yw'r gofynion sylfaenol hyn wedi newid, ond yn dilyn adborth cyd-lunio i gydnabod ymdrechion ffermwyr i reoli'r ardaloedd ehangach hyn, rydym yn bwriadu cefnogi'r holl orchudd coetir a chynefinoedd presennol fel rhan o'r Gweithredoedd Cyffredinol.

135. Byddai'r rhain yn ddulliau cyflawni pwysig ar gyfer targedau newid hinsawdd ac ymrwymiadau 30x30 bioamrywiaeth.

136. 10% o orchudd coed – mae'r cynnig hwn wedi cael llawer o sylw. Mae'r cynnig yn aros yn yr ymgynghoriad, ond mae gwelliannau wedi'u gwneud. Hefyd, rydym wedi addasu'r weithred fel nad yw'n 10% o'r fferm gyfan bellach, ond 10% o'r arwynebedd sy'n weddill pan fydd yr arwynebeddau nad oes modd eu plannu wedi'u tynnu o'r cyfrifiad. Mae arwynebeddau nad oes modd eu plannu yn cynnwys:
   - Tir ar denantiaeth, lle mae'r tenant wedi'i atal rhag rheoli coetir neu blannu coed oherwydd natur y cytundeb tenantiaeth
   - Cynefinoedd o ansawdd uchel a blaenoriaeth
   - Nodweddion parhaol fel ffyrdd, llwybrau, ac adeiladau
   - Mae'n bosibl y bydd angen ystyried nodweddion sensitif eraill fesul achos, fel adar sy'n nythu ar y ddaear neu leoliadau arfordirol agored.

137. Mewn ardaloedd lle nad yw coed wedi'u plannu eto, rydym yn parhau i archwilio ble mae'r coed yn gallu ychwanegu gwerth at y fferm, fel rhwystrau bioddiogelwch neu gysgod a lloches ar gyfer da byw mewn tywydd eithafol. Rydym o'r farn nad oes angen gwneud dewis rhwng coed neu fwyd yn unig, gan fod modelau amaeth-goedwigaeth gwahanol ar gael.

138. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys rhagor o fanylion hefyd am y gweithdrefnau gweinyddol arfaethedig ar sail esblygiad y dulliau cyfarwydd presennol trwy ein gwasanaeth RPW Ar-lein.

139. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys manylion y fethodoleg arfaethedig ar gyfer taliadau, ond ni fydd yn cynnwys y manylion llawn am daliadau gan na fydd y gweithredoedd yn cael eu cwblhau nes bydd yr ymarferiad ymgynghori hwn yn dod i ben.

# 10. Atodiad 1 – rhestr o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd

| Teitl Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (CRhP) | Amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi | Awdurdod Cydgysylltu | Cyd-awdurdod neu Awdurdodau |
|---|---|---|---|
| CRhP Cregyn y Brenin | 2021 i 2023 | Defra | Llywodraeth Cymru |
| CRhP y Draenogyn Môr | 2022 i 2023 | Defra | Llywodraeth Cymru |
| CRhP Penfras Môr y Gogledd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Penfras Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Penfras yr Iwerydd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Hadog Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Hadog yr Iwerydd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Gwyniad Môr Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Gwyniad Môr y Gogledd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Chwitlyn Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |

| Teitl Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (CRhP) | Amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi | Awdurdod Cydgysylltu | Cyd-awdurdod neu Awdurdodau |
|---|---|---|---|
| CRhP Cegddu Silff y Gogledd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Maelgi/Môr-lyffant Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Lleden Fair Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Honos Silff y Gogledd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Cimwch Norwy Môr y Gogledd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Cimwch Norwy Arfordir Gorllewin yr Alban | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Macrell Silff y Gogledd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Penwaig yr Iwerydd/Llychlyn | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Penwaig Môr y Gogledd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Penwaig Arfordir Gorllewin yr Alban (a Clyde) | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |

| Teitl Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (CRhP) | Amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi | Awdurdod Cydgysylltu | Cyd-awdurdod neu Awdurdodau |
|---|---|---|---|
| CRhP Pysgodyn Arian Mawr Môr y Gogledd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Pysgodyn Arian Mawr Gorllewin yr Alban | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Swtan Glas Silff y Gogledd | 2022 i 2024 | Marine Scotland | DAERA, Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Pelagig Môr Iwerddon | 2023 i 2025 | DAERA | Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Pysgod Gwely'r Môr, Môr Iwerddon | 2023 i 2025 | DAERA | Defra, Llywodraeth Cymru |
| CRhP Pysgod Gwely'r Môr y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr | 2023 i 2025 | Defra | Llywodraeth Cymru |
| CRhP Pelagig y Môr Celtaidd a Gorllewin Sianel Lloegr | 2023 i 2025 | Defra | Llywodraeth Cymru |
| CRhP Crancod a Chimychiaid | 2022 i 2026 | Llywodraeth Cymru | Amherthnasol |
| CRhP Cregyn Moch yn nyfroedd Cymru | 2022 i 2027 | Llywodraeth Cymru | Amherthnasol |
| CRhP Cocos | 2022 i 2028 | Llywodraeth Cymru | Amherthnasol |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Sesiwn Graffu Gyffredinol 13-12-2023 – Papur Tystiolaeth**

Paratowyd cynnwys y papur yma cyn, ac maent yn amodol i, y gyllideb arfaethedig

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad ysgrifenedig ar ein blaenoriaethau economaidd allweddol yn ystod ail hanner 2023. Yn erbyn cefndir hynod heriol o bwysau ariannol enbyd ac ansicrwydd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig, rydym yn falch o'r canlyniadau yr ydym wedi'u cyflawni. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau economi Cymru wrth inni ffynnu tuag at greu Cymru decach, wyrddach i bawb.

<u>Cenhadaeth Economaidd</u>

Fel rhan o'n cynllun ar gyfer twf economaidd, rydym am gryfhau'r partneriaethau unigryw sy'n dod â busnesau, awdurdodau lleol, undebau llafur a'r byd academaidd ynghyd. Y mis diwethaf, lansiwyd rhaglen adfywio'r Genhadaeth Economaidd, sy'n nodi'r camau nesaf ar gyfer ein Cenhadaeth Economaidd, gan ganolbwyntio ar gyfres o feysydd blaenoriaeth cenedlaethol. Y pedwar maes blaenoriaeth yw:

- **Sero Net a Phontio Teg** – gwireddu'r cyfleoedd enfawr Sero Net a ddarperir gan amgylchedd naturiol Cymru, cefnogi twf busnes, ac ymgysylltu â phobl a busnesau i symud tuag at bontio teg.

- **Dyfodol Uchelgeisiol** – cefnogi pobl ifanc i gyflawni'r dyfodol uchelgeisiol y maent yn ei haeddu yng Nghymru, drwy ddatblygu eu sgiliau a'u creadigrwydd, a gynhelir gan waith teg ac sy'n cyd-fynd â'n hanghenion economaidd.

- **Economïau Rhanbarthol Cryfach** – canolbwyntio ar le, i alluogi economïau rhanbarthol cryf sy'n blaenoriaethu anghenion llesiant y boblogaeth, gan gefnogi'r economi sylfaenol a mynediad at waith teg.

- **Arloesedd, Buddsoddiad a Thwf** – cryfhau arloesedd i hybu buddsoddiad a thwf, gan gefnogi masnacheiddio ac entrepreneuriaeth ar draws busnesau, rhanbarthau, y byd academaidd a gwasanaethau cyhoeddus i wireddu cyfleoedd o fewn marchnadoedd a thechnolegau presennol a newydd.

<u>Datblygu rhanbarthol</u>

Mae ein hymrwymiad i gydweithio a gweithio rhanbarthol yn sicrhau y gellir gwneud mwy o benderfyniadau yn nes at y cymunedau o fewn cenhadaeth a rennir sy'n caniatáu i fwy o bobl gynllunio dyfodol uchelgeisiol yma yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ymrwymo i flaenoriaethau a rennir i gefnogi twf cynhwysol a chynaliadwy i wneud y mwyaf o gyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol, gan ganolbwyntio ar yr egwyddor bod lleoedd o bwys, a chred ym mhwysigrwydd sicrhau ffyniant a manteision twf economaidd i bob rhan o Gymru.

<u>Economi wledig</u>

Rydym yn gweithio i hybu twf ledled Cymru, gan gynnwys ein hardaloedd gwledig. Ym mhortffolio'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, rydym wedi diogelu Cynllun y Taliad Sylfaenol i ffermwyr, wedi parhau i fuddsoddi mewn busnesau bwyd, ac wedi cefnogi camau i'n helpu i symud i economi gynaliadwy a gwyrdd.

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, eisoes wedi cyhoeddi pecyn cymorth drwy Gynlluniau Buddsoddi Gwledig ar gyfer ffermwyr, coedwigwyr, rheolwyr tir a busnesau bwyd, â gwerth dros £200 miliwn, i gefnogi'r economi wledig a'n hamgylchedd naturiol.

Y Cymoedd Technoleg

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol yn rhan o'n hymagwedd strategol at dwf economaidd a datblygu ein heconomi llesiant. Mae rhaglen y Cymoedd Technoleg yn un o'n henghreifftiau gorau a'n buddsoddiadau mwyaf. Ar ôl gwaith sylweddol, mae rhaglen y Cymoedd Technoleg wedi magu momentwm a bydd wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol erbyn diwedd 2023/24. Yr ydym wedi gwneud y canlynol:

- ymrwymo dros £40 miliwn i brosiectau yn y portffolio cynyddol, ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi a datblygu prosiectau newydd
- helpu i greu 298,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr newydd ac wedi'i adnewyddu, gan alluogi ffigur o 600 o swyddi posibl
- helpu i wella perfformiad sgiliau STEM mewn ysgolion a cholegau lleol
- sicrhau cyfeiriad llwyddiannus y Gronfa Ffyniant Bro gan Lywodraeth y DU i Flaenau Gwent i greu'r Ganolfan Beirianneg Gwerth Uchel – cyfleuster hyfforddi uwch-dechnoleg ar gyfer hyd at 600 o fyfyrwyr a defnyddwyr masnachol a fydd yn agor ar ddiwedd 2024

Parthau Buddsoddi

Mae ein dull o weithio mewn partneriaeth i'w weld yn y modd yr ydym yn cynllunio ar gyfer cymhwyso'r polisi ar Barthau Buddsoddi yng Nghymru. Rydym am weld Parthau Buddsoddi yn adeiladu ar gryfderau penodol Cymru, gan gyfrannu at ein hagenda Gwaith Teg a helpu Cymru i ddod yn wlad Sero Net.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gefnogi dau Barth Buddsoddi yng Nghymru, gyda Llywodraeth y DU yn darparu cyllid yn y lleoliadau canlynol:

  - De-ddwyrain Cymru, gan gwmpasu'r ardal gyfan
  - Gogledd-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Sir y Fflint a Wrecsam

Bydd unrhyw Barthau Buddsoddi'n cael eu datblygu drwy gydbwyllgorau corfforedig fel y cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer cynllunio a chyflawni - yn unol â'r Genhadaeth Economaidd - gan sicrhau bod buddion yn cael eu lledaenu ledled y rhanbarth.

Mae Parthau Buddsoddi yn enghraifft berffaith o sut y gallwn fod yn bartneriaeth gyfartal â Llywodraeth y DU.

Datgarboneiddio diwydiant

Mae effaith bosibl polisïau datgarboneiddio ar gystadleurwydd diwydiannol yn gofyn am system gymorth gytbwys ledled y DU. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi asesu y bydd dros 60% o'r newidiadau angenrheidiol i gyflawni llwybr sero net yng Nghymru yn cael eu dylanwadu gan bwerau a gedwir yn bennaf i San Steffan. Rhaid i hyn gymryd i ystyriaeth heriau daearyddol unigryw rhanbarthau diwydiannol Cymru. Mae ein llwybr i Gymru sero net yn heriol, ond bydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy a busnesau mwy cydnerth.

Ym mis Mawrth 2022, sefydlwyd Diwydiant Sero Net Cymru i gefnogi'r gwaith o gydgysylltu prosiectau datgarboneiddio diwydiannol a blaenoriaethu'r cymorth ar lefel y DU sy'n ofynnol i alluogi pontio teg i sero net ar gyfer diwydiant.

Mae datgarboneiddio'r diwydiant dur yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r sector. Mae sicrhau pontio teg i ddyfodol carbon isel yn hollbwysig. Mae busnesau ynni-ddwys megis gwaith dur yn parhau i weithredu mewn amgylchedd heriol gyda phrisiau trydan y DU yn sylweddol uwch na rhai gwledydd eraill.

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn gweithredu ei Fecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau (CBAM) ei hun. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar ystod o fesurau lliniaru carbon, gan gynnwys Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau ar gyfer y DU a safonau cynnyrch gorfodol. Cred y diwydiant dur ei bod yn hanfodol bod mesurau priodol yn y DU yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod cystadleuwyr Ewropeaidd yn cael eu trin yn yr un modd.

Bydd y newid i wneud dur carbon isel yn gofyn am gadw lefelau sylweddol o sgrap dur domestig o ansawdd uchel yn y DU. Yn fyd-eang, bydd cyflenwad sgrap yn dod yn fater mwy arwyddocaol.

Gallai'r sector ffermydd gwynt arnofiol ar y môr yn y Môr Celtaidd ddarparu cyfle marchnad o hyd at £12 biliwn i'r DU, ar draws cyfres o brosiectau profi ac arddangos a phrosiectau ar raddfa fasnachol.

Rydym yn gweithio gyda datblygwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi i fusnesau Cymru.

Fel rhan o'n Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu, rydym ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer mapio cadwyn gyflenwi'r sector hwn, gan edrych yn arbennig ar gapasiti, gallu a gwydnwch cadwyni cyflenwi presennol a nodi lle y gallwn fanteisio ar gyfleoedd fel ynni gwynt ar y môr.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Chlwstwr y Môr Celtaidd a'r Gynghrair Ynni ar y Môr i ysgogi cadwyni cyflenwi lleol ledled Cymru a de-orllewin a gogledd-orllewin Lloegr, i sicrhau eu bod mewn sefyllfa i wneud cais llwyddiannus am gontractau. Mae Llywodraeth Cymru yn un o sylfaenwyr Clwstwr y Môr Celtaidd a'r Gynghrair Ynni ar y Môr.

Rydym wedi rhoi £150,000 i Ynni Môr Cymru yn 2023/24. Mae hyn yn darparu cyllid ar gyfer ymgysylltu â'r sector, cyfeirio, a rhoi cyngor i fusnesau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ar draws technolegau tonnau, llanw, a gwynt arnofiol ar y môr. Mae'n rhan bwysig o'r gwaith yr ydym yn ei gefnogi i ddatblygu'r sector ynni môr yng Nghymru.

Lansio'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net ym mis Chwefror 2023 oedd y garreg filltir gyntaf i Gymru o ran siapio'r dirwedd o ran sgiliau i gyd-fynd â'n hymrwymiadau sero net.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y sgiliau y mae eu hangen ledled Cymru, ac yn cyd-fynd â'r wyth sector allyriadau yng Nghymru, sy'n cynnwys Diwydiant a Busnes, a Chynhyrchu Trydan a Gwres.

Mae'r cynllun yn manylu ar saith maes blaenoriaeth allweddol, gan gynnwys casglu tystiolaeth o anghenion sgiliau yn y dyfodol, gan sicrhau bod y system sgiliau yn ymateb i ofynion newidiol ac yn ailsgilio ac uwchsgilio'r gweithlu ar gyfer y newid i sero net.

Ein nod yw tyfu ac arfogi sectorau â'r gweithlu medrus cywir i'n cynorthwyo â'r gwaith pontio teg i sero net. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

<u>Banc Datblygu Cymru</u>

Mae cylch gwaith Banc Datblygu Cymru yn cynnwys datgarboneiddio fel blaenoriaeth polisi, ac mae'r banc yn cynorthwyo busnesau i bontio tuag at sero net.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid drwy Fanc Datblygu Cymru ac wedi targedu cyngor gan Busnes Cymru i gynorthwyo busnesau i greu a chynnal swyddi newydd, dod o hyd i farchnadoedd allforio newydd, a buddsoddi mewn diwydiannau gwyrdd cynaliadwy. Ers 2021, mae Banc Datblygu Cymru wedi darparu cyllid benthyciad ac ecwiti i gynorthwyo busnesau i greu a chynnal miloedd o swyddi newydd.

<u>Ymchwil a Datblygu</u>

Mae ein Strategaeth Arloesi yn cynnwys neges gref i holl ecosystem ymchwil, datblygu ac arloesi Cymru gydweithio a throsoli mwy o gyllid gan Innovate UK, a'r cynghorau ymchwil eraill sy'n rhan o UKRI.

Mae cymunedau busnes ar draws y gwledydd datganoledig yn amrywio o ran maint, gallu, a mynediad at gyfleoedd ariannu; hoffai Llywodraeth Cymru weld strwythurau cyflawni sy'n parchu ac yn croesawu'r gwahaniaethau hyn.

Mae gan Gymru'r gallu a'r profiad i fod yn bartner cyflawni wrth roi cyfleoedd ariannu ar waith ar lawr gwlad. Mae strwythurau cyflawni cadarn ac aeddfed eisoes ar waith yng Nghymru, a chroesawn y gwaith ar y cyd ar bartneriaethau rhyngwladol.

Gan weithio ar y cyd ar draws y Llywodraeth, ac yn unol â'r ymrwymiadau a wnaed yn ein cytundeb cydweithredu â Phlaid Cymru, mae gan y cenadaethau yn y strategaeth gamau gweithredu a cherrig milltir cyfochrog mewn Cynllun Cyflawni

Arloesedd. Wedi'i gyhoeddi ar 17 Hydref, mae hefyd yn cynnwys ymrwymiadau sylfaenol i gydraddoldeb daearyddol a demograffig ochr yn ochr â'r ffordd gydgysylltiedig o weithio.

Fel gyda'r strategaeth, mae'r cynllun wedi'i gynllunio i fod yn ddogfen fyw a fydd yn esblygu wrth i gamau gael eu cymryd ac wrth i gyfleoedd a blaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg.

Prentisiaethau

Bydd newidiadau mewn technoleg a'r gallu i awtomeiddio gwaith yn golygu bod angen mwy o gymorth ar gyfer ailhyfforddi ac uwchsgilio. Bydd awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial yn effeithio ar bob strwythur galwedigaethol, ac mae'r galw am ailsgilio felly'n debygol o fod yn gymhleth ac yn effeithio ar bob lefel sgiliau.

Er mwyn ateb yr heriau hyn, mae angen inni barhau i alinio ein model cyflawni ag anghenion economaidd, gan gefnogi pobl i ailsgilio a diweddaru eu sgiliau mewn ymateb i broffiliau swyddi a chymwysterau sy'n newid a phroffesiynau newydd.

Rydym yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn prentisiaethau yn y sectorau hynny a fydd yn cefnogi twf economaidd a chydlyniant cymunedol, gan gynnwys sero net a'r economi sylfaenol. Mae prentisiaethau Cymru yn cael eu cynllunio i wella cynhyrchiant a diwallu anghenion sgiliau strategol.

Masnach y DU-UE

Mae ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i roi ein Cynllun Gweithredu Allforio ar waith wedi rhoi pecyn cymorth cynhwysfawr ar waith ar gyfer busnesau, gan ysbrydoli busnesau i ddechrau allforio, meithrin gallu allforio, dod o hyd i gwsmeriaid tramor, a chynorthwyo busnesau i gyrraedd marchnadoedd tramor.

Ffocws allweddol ein gweithgarwch hybu masnach yw'r farchnad Ewropeaidd. Yr Undeb Ewropeaidd yw partner masnachu mwyaf Cymru o hyd, gydag allforion nwyddau i'r UE yn werth £11.6 biliwn yn 2022, a oedd yn cyfrif am 56.6% o allforion Cymru (o gymharu â 52.2% o allforion y DU).

Mae ein tîm o gynghorwyr masnach ryngwladol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u lleoli ledled Cymru, ochr yn ochr â thimau tramor Llywodraeth Cymru (a phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys yr Adran Busnes a Masnach), yn parhau i ddarparu cymorth parhaus i'n hallforwyr i ddeall gofynion masnachu mewn marchnadoedd allweddol, gan gynnwys yr UE.

Cytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel gyda masnach y tu allan i'r UE

Nid ydym yn credu bod effaith y DU yn dod yn aelod o Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel ar fusnesau a defnyddwyr Cymru, ac ar economi Cymru yn ehangach, yn debygol o fod yn sylweddol. Er bod rhai manteision posibl i fusnesau Cymru yn sgil y DU yn dod yn aelod o Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel, mae hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig oherwydd nifer y cytundebau masnach rydd dwyochrog presennol ag aelodau'r Bartneriaeth.

Rydym bob amser wedi bod â phryderon, ac yn parhau i'w cael, ynghylch rhai elfennau o gytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel. Nid yw darpariaethau mewn meysydd fel newid hinsawdd, llafur a grymuso menywod yn economaidd mor uchelgeisiol ag y byddem fel arfer yn dymuno ei weld mewn cytundebau masnach rydd, neu nid ydynt yn cynnwys mecanweithiau gorfodi cadarn.

Bu cynnydd da mewn rhai meysydd, ond nid yw'r trafodaethau wedi dod i ben eto.

Fodd bynnag, mae ein hymagwedd at bolisi masnach, sydd wedi'i llywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn golygu ein bod yn ystyried bod cytundebau masnach yn ymwneud â mwy nag enillion economaidd yn unig. Credwn y dylai cytundebau masnach gynnwys darpariaethau ar faterion allweddol eraill megis hawliau gweithwyr a rhywedd a'r amgylchedd.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon